Senedd Cymru
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Banc Datblygu Cymru

Gorffennaf 2024

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddEconomi**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Banc Datblygu Cymru

Gorffennaf 2024

Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:

Cadeirydd y Pwyllgor:
Paul Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig

Hefin David AS
Llafur Cymru

Luke Fletcher AS
Plaid Cymru

Vikki Howells AS
Llafur Cymru

Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig

Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:

Buffy Williams AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:

Alun Davies AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd **5**

Argymhellion **7**

1. Cyflwyniad **9**

2. Y cefndir **10**

3. Rôl a chylch gwaith y Banc **12**

4. Cydgysylltiad strategol â blaenoriaethau'r Llywodraeth **19**

5. Perthynas y Banc â Busnes Cymru **22**

6. Ailddosbarthu'r Banc gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) **24**

7. Statws y Banc **26**

8. Annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru a diwydrwydd dyladwy **28**

9. Llywodraethu a chwynion **33**

Buddsoddiadau ecwiti 33

Y broses gwyno 36

10. Adolygiad annibynnol o'r Banc **41**

11. FW Capital **44**

12. Parodrwydd i dderbyn risg **47**

13. Safbwynt byd-eang **50**

Casgliadau **54**

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar **57**

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig **58**

Gwybodaeth ychwanegol 58

Rhagair y Cadeirydd

Saith mlynedd ar ôl sefydlu Banc Datblygu Cymru, roedd yn teimlo'n amserol i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad manylach i'r ffordd y mae wedi perfformio ac i ba raddau y mae'n cyflawni nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru. Mae'r Banc yn rhan hanfodol o'r ecosystem gyllid yng Nghymru, ac mae ei gymorth i fusnesau, yn enwedig wrth adfer ar ôl effaith Covid-19, yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan sefydliadau fel Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru.

Aeth yr ymchwiliad hwn â ni i gyfeiriad gwahanol i'r hyn roedd yr Aelodau wedi'i ragweld yn wreiddiol, ond tynnodd sylw at faterion pwysig i'r Banc a Llywodraeth Cymru eu hystyried. Clywsom lawer a oedd yn gadarnhaol iawn am weithgareddau a dull y Banc fel benthyciwr, rhai awgrymiadau adeiladol ar gyfer gwelliannau, ond hefyd rhai yn ymwneud â thystiolaeth negyddol a beirniadaethau, yn enwedig yn ymwneud â buddsoddiadau ecwiti'r Banc. Rhoddwyd rhywfaint o'r dystiolaeth olaf honno'n gyfrinachol, a oedd yn peri anawsterau wrth ddilysu ac ystyried yr holl faterion a ddygwyd i'n sylw. Rydym yn adlewyrchu hyn yn ein hadroddiad. Fel bob amser, mae'r Pwyllgor yn ymdrechu i gymryd agwedd deg a chytbwys tuag at archwilio'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod ymchwiliad, ac rydym yn gwerthfawrogi'r ffordd adeiladol y mae pawb wedi ymgysylltu â ni yn y gwaith pwysig hwn.

Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad teilwredig llawn o weithrediadau'r Banc fel y cynlluniwyd yn wreiddiol yn ystod y Senedd hon, ac i ystyried cryfhau ei phroses gwyno ymhellach fel rhan o hynny. Mae'n addas bod y Banc yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond mae'n cael ei ariannu drwy bwrs y wlad: cymysg oedd barn am y graddau y mae gweithgareddau'r Banc yn cyd-fynd yn llawn â blaenoriaethau a strategaeth economaidd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cymorth ar gyfer sectorau busnes penodol. Felly, rydym hefyd yn argymell y dylid cynnal adolygiadau rheolaidd o lythyr cylch gwaith y Banc gan Lywodraeth Cymru, er mwyn adlewyrchu newidiadau yn ystod tymor Senedd.

Fel y disgwyliwyd, gwnaethom roi cryn sylw i brosesau diwydrwydd dyladwy'r Banc fel benthyciwr arian cyhoeddus sylweddol. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed eisoes gan yr Ysgrifennydd Cabinet i ofyn i'r Banc adolygu ei brosesau diwydrwydd dyladwy. Mae lefelau rheoleiddio uchel yn nodwedd o fenthyca gan sefydliadau fel Banc Datblygu Cymru, ond fel Pwyllgor roeddem hefyd o'r farn bod manteision ac anfanteision y Banc yn cael eu rhoi ar sail ddeddfwriaethol statudol fel y banciau cyfatebol yn yr Alban a Chanada. Ar ôl cymryd tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Banc ynghylch goblygiadau ailddosbarthu'r Banc fel sefydliad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae'r Pwyllgor o'r farn mai'r mater ailddosbarthu hwn yw'r pwys mwyaf dybryd, ac y dylid ei ddatrys cyn rhoi ystyriaeth ehangach i statws y Banc yn y dyfodol.

Clywsom fod y dirwedd cymorth busnes yng Nghymru yn hynod dameidiog, ac awgrymwyd y gallai'r Banc ymgymryd â swyddogaeth cymorth busnes integredig fel Banciau Datblygu eraill. Y nod fyddai cynnig cymorth symlach i fusnesau Cymru, ac rydym yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn blaenoriaethu'r mater hwn.

Gwneir 13 o argymhellion yn yr adroddiad, sydd hefyd yn cynnwys adeiladu ymhellach ar lwyddiant y Banc o ran cefnogi pryniannau gan y gweithwyr, mwy o ddealltwriaeth o sut y mae'n cefnogi cynlluniau ynni cymunedol, a mwy o ddadansoddiad i ddeall effaith lawn buddsoddiadau'r Banc ar economi Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn a gofalus i farn ac argymhellion yr holl bobl a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth.

Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn cynnwys edrych ar arfer gorau byd-eang ac ystyried sefydliadau cymharol. Rhoddodd y Banc dystiolaeth gref o fanteision ei ymgysylltiad â Banciau Datblygu eraill. Mewn rhai ffyrdd gellir ystyried bod y Banc yn arwain y ffordd - fel y cyntaf o'i fath yn y DU - ond gall hefyd ddysgu llawer gan Fanciau Datblygu eraill sy'n fwy hirsefydlog. Rydym yn croesawu parhad y Banc i rannu arfer gorau â chyrff rhyngwladol, gan gynnwys Grŵp Montreal wrth iddo barhau ar ei daith.

Paul Davies AS
Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o gynllunio olyniaeth a phryniannau gan y gweithwyr, a sut y gall Banc Datblygu Cymru gael mwy o ran yn hyn, wrth ddatblygu llythyr cylch gwaith nesaf y Banc. Tudalen 18

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cylch gwaith a chyfrifoldebau Banc Datblygu Cymru wedi tyfu a newid gyda threigl amser. Mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio sut y mae swyddogion yn cymryd rhan mewn rhythm rheolaidd cyfarfodydd â'r Banc gyda statws sylwedydd, ond dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanwaith ar gyfer adlewyrchu newidiadau i'w blaenoriaethau economaidd a'i ffocws dros dymor Senedd. Hoffai'r Pwyllgor i hyn gynnwys ymrwymiad i ddyroddi llythyrau cylch gwaith mwy rheolaidd i'r Banc, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny o reidrwydd.Tudalen 21

Argymhelliad 3. Dylai Banc Datblygu Cymru ymgymryd â darn o waith, neu gomisiynu un, i roi dealltwriaeth gadarn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg o effaith y cyllid preifat a ddaw i rym o ganlyniad i fuddsoddiadau uniongyrchol gan y Banc ar economi Cymru.Tudalen 21

Argymhelliad 4. Dylai Banc Datblygu Cymru roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ar sut y mae'n cefnogi datblygu cynlluniau ynni cymunedol. Tudalen 21

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adolygiad o swyddogaethau Busnes Cymru ac archwilio dichonoldeb a dymunoldeb integreiddio'r swyddogaethau hyn yng nghylch gwaith Banc Datblygu Cymru, a chanolbwyntio ar symleiddio'r cynnig cymorth i fusnesau. Dros y 6-12 mis nesaf, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ystyried y mater hwn, a rhoi sail resymegol glir dros y penderfyniad a wnaed o ganlyniad. Tudalen 23

Argymhelliad 6. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru geisio dod â negodiadau i ben â Thrysorlys EF cyn gynted â phosibl ar ddatrysiad boddhaol i'r mater ailddosbarthu ar gyfer Banc Datblygu Cymru. Mae rhaid i'r cytundeb y deuir iddo ddiogelu rôl y Banc ac osgoi cyfyngu ar ei weithgareddau fel benthyciwr, ac mae rhaid iddo sicrhau hefyd nad yw'n cael effaith andwyol ar sefyllfa gyllidebol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.Tudalen 25

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ynghylch a ddylid gosod Banc Datblygu Cymru ar sail statudol, ond dylid gwneud y gwaith hwn ar ôl i fater ailddosbarthiad y Banc gael ei ddatrys. Dylai'r adolygiad ystyried pa elfennau o gylch gwaith y Banc y gellid ac y dylid eu gwneud yn statudol. Dylai'r

Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd am ddatblygiadau ac amserlenni arfaethedig ar gyfer y gwaith hwnnw. ..... Tudalen 27

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Fanc Datblygu Cymru adolygu ei brosesau diwydrwydd dyladwy, gyda'r bwriad o nodi a oes angen eu cryfhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am y cwmpas, y cynnydd, y canlyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt sy'n deillio o'r adolygiad hwn. ..... Tudalen 32

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru adneuo pob fersiwn yn Llyfrgell y Senedd hyd yn hyn o'r ddogfen fframwaith sy'n nodi ei pherthynas â Banc Datblygu Cymru, a sicrhau y gwneir yr un peth ar gyfer unrhyw fersiwn yn y dyfodol. ..... Tudalen 32

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Banc Datblygu Cymru wedi gwneud rhai newidiadau i'w broses o ymdrin â chwynion, ond mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid edrych ar y mater o ymdrin â chwynion yn yr adolygiad teilwredig a argymhellir o'r Banc. ..... Tudalen 40

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru ystyried sut y gellir casglu barn busnesau mewn ffordd gyfrinachol a/neu ddienw, gan gynnwys gan y busnesau sydd naill ai heb ddefnyddio'r Banc Datblygu o'r blaen, neu sydd wedi gwneud cais am gymorth a bod yn aflwyddiannus. Dylai'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny. ..... Tudalen 40

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad teilwredig llawn o Fanc Datblygu Cymru, yn ystod tymor y Senedd hon fel yn unol â'r ymrwymiad gwreiddiol yn llythyr cylch gwaith tymor llywodraeth y Banc. ..... Tudalen 43

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymgysylltiad y Banc â Banciau Datblygu eraill a sefydliadau a fforymau perthnasol. Mae'n annog y Banc i wneud rhagor o waith gyda Grŵp Montreal, er mwyn sicrhau ei fod yn mabwysiadu arfer gorau, ac mae'r Pwyllgor yn cefnogi ei nod o ymuno â'r Grŵp yn llawn. ..... Tudalen 53

1. Cyflwyniad

Mae Banc Datblygu Cymru ("y Banc") wedi bod yn gweithredu ers 2017. Yn lle ei waith craffu arferol ar gyfrifon blynyddol y Banc eleni, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad manylach i asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn amcanion, a sut y mae'r Banc yn cymharu â banciau datblygu o faint tebyg.

1. Y cylch gorchwyl llawn oedd ystyried:

- Perfformiad cyffredinol Banc Datblygu Cymru ers ei sefydlu yn 2017, gan gynnwys meysydd llwyddiant yn ogystal â meysydd tanberfformiad.
- I ba raddau y mae'r Banc Datblygu wedi cyflawni'r amcanion penodol fel y nodir yn Banc Datblygu Cymru – Ased cenedlaethol strategol ar gyfer Cymru fwy ffyniannus, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017 ac yn llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer Banc Datblygu Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021.
- Archwilio enghreifftiau o arfer gorau byd-eang a deall sut y mae Banc Datblygu Cymru yn cymharu â banciau datblygu eraill o faint tebyg – o ran maint y cronfeydd, mathau o gymorth a ddarperir ac effaith ac ati.

2. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad rhwng 16 Tachwedd 2023 a 4 Ionawr 2024, a chafwyd 8 ymateb. Rhestrir y rhain yn Atodiad 2 ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig arall a gyhoeddwyd yn ystod yr ymchwiliad. Clywyd tystiolaeth lafar rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2024 – rhestrir y manylion yn Atodiad 1.

2. Y cefndir

Mae'r Banc yn gweithredu ar hyd braich rhag Llywodraeth Cymru. Arweinir ei amcanion a'i flaenoriaethau gan lythyr cylch gwaith gan Weinidogion Cymru.

3. Sefydlwyd y Banc yn dilyn adolygiad annibynnol yn 2013, a gomisiynwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd, i'r ffordd roedd busnesau bach a chanolig (BBaCh) yng Nghymru yn cael eu cyllido. Daeth adroddiad dilynol Grŵp Gorchwyl a Gorffen, dan arweiniad yr Athro Dylan Jones Evans a gyhoeddwyd yn 2015, i'r casgliad a ganlyn:

> *"... the current solutions being provided by Finance Wales, as a subsidiary of the Welsh Government, will not be able to fully address the challenges in closing the widening funding gap for SMEs in Wales. Therefore, we recommend that a new organisation - the Development Bank for Wales – be established that will enhance the capability of the Welsh Government to support SMEs in Wales. It will do so by working more closely with the private sector to address the supply and demand dynamics of the Welsh finance market as well as developing its own innovative approach to provide solutions that directly address the needs of the SME sector."*[1]

4. Yn dilyn gwaith craffu gan bwyllgor ac argymhellion a wnaed yn 2015-16, datganodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y pryd, ym mis Medi 2016 ei fod 'bellach wedi derbyn cynllun busnes sydd wedi'i brisio'n llawn gan Cyllid Cymru fydd yn eu gweld yn datblygu yn Fanc Datblygu Cymru'.[2] Ar 11 Gorffennaf 2017, cymeradwyodd Cabinet Llywodraeth Cymru achos busnes llawn ar gyfer y Banc, a chyhoeddodd 'Banc Datblygu Cymru: ased cenedlaethol strategol ar gyfer Cymru fwy ffyniannus'.[3]

[1] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/astudiaeth-ddichonoldeb-ar-greu-banc-datblygu-cymru.pdf
[2] https://www.llyw.cymru/banc-cyllido-datblygu-gwerth-ps136-miliwn-yn-helpu-i-gefnogi-busnesau-yng-nghymru-wedi-refferendwm
[3] https://developmentbank.wales/sites/default/files/2017-10/DBW%20Strategic%20Outline%20Brochure%20WELSH%20digital.pdf

5. Datganodd y ddogfen 'ased strategol' mai bwriad BDC oedd dod yn "gonglfaen ar gyfer cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gyrru cynnydd twf hirdymor, a chreu a diogelu swyddi o ansawdd uwch", ac mai:

> *"Cenhadaeth Banc Datblygu Cymru yw datgloi potensial economi Cymru trwy gynyddu'r ddarpariaeth o gyllid cynaliadwy, effeithiol yn y gofod rhwng y galw a'r farchnad. Ei weledigaeth yw y bydd yn adnodd unigryw i Gymru, gan greu gwerth hirdymor drwy gyflawni gwasanaethau ariannol – gan wella economi ddeinamig, gystadleuol."*[4]

6. Mae'r Banc Datblygu yn gwmni cyfyngedig cyhoeddus sy'n eiddo i Weinidogion Cymru. Cafodd y cwmni ei ymgorffori'n wreiddiol ar 18 Awst 2000, a'i enw gwreiddiol oedd Cyllid Cymru CCC cyn cael ei ailenwi'n Fanc Datblygu Cymru CCC ar 6 Hydref 2017. Fel y nodir yn llythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth[5], y Banc Datblygu yw'r endid "ymddiriededig" y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian ar gyfer ei fuddsoddi a gwneud elw. Mae llythyr cylch gwaith 2021 gan gyn-Weinidog yr Economi yn datgan y canlynol:

> *"rwy'n nodi'r blaenoriaethau yr wyf am weld BDC yn mynd i'r afael â hwy yn unol â'i genhadaeth, gan gynnwys chwarae rhan weithredol fel rhan o fodel Tîm Cymru yn y gwaith o gefnogi ein cenhadaeth adferiad economaidd ac wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn bydd BDC o gymorth inni sicrhau ein gweledigaeth, gan wneud Cymru yn lle deniadol i fyw, astudio, gweithio a buddsoddi ynddi. Cadwaf yr hawl i adolygu a diweddaru'r llythyr hwn dros y tymor o 5 mlynedd.*

[4] https://developmentbank.wales/sites/default/files/2017-10/DBW%20Strategic%20Outline%20Brochure%20WELSH%20digital.pdf
[5] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/llythyr-cylch-gwaith-ar-gyfer-banc-datblygu-cymru-2021-i-2026.pdf

3. Rôl a chylch gwaith y Banc

7. Pwysleisiodd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r ymchwiliad rôl y Banc fel "rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru i greu Cymru fwy ffyniannus a chadarn ac i gefnogi economi Cymru drwy ei gwneud hi'n haws i fusnesau, arloeswyr ac entrepreneuriaid gael y cyllid sydd ei angen arnynt i gychwyn egin fusnes, i gryfhau ac i dyfu." Tynnodd sylw at rôl barhaus y Banc ers 2017 o ran 'Illenwi'r gofod rhwng angen busnes am gyllid a chyflenwad cyllid yn y farchnad.'

8. O ran perfformiad, dywedodd fod gan gwsmeriaid barch mawr at y Banc:

> *"Yr hyn sy'n gwneud y Banc Datblygu yn wahanol fel buddsoddwr yw'r dull partneriaeth o weithredu y maent yn ei fabwysiadu gyda'u cwsmeriaid. Daeth y gorau yn y dosbarth a chyda wyneb dynol yn ethos gweithredu ar gyfer y sefydliad. Mae arolwg 2022 ar syniadau pobl am natur y brand yn dangos yn glir bod gan gwsmeriaid a chyfryngwyr barch mawr at y banc datblygu. I gwsmeriaid priodoleddau cryfaf y brand yw 'gonest a dibynadwy', 'arbenigol a phroffesiynol' ac 'esbonio pethau'n eglur'. Mae Sgôr Hyrwyddwr Net y banc yn cael ei raddio'n 'rhagorol'. Y Sgôr Hyrwyddwr Net yw'r mesur a ddefnyddir i olrhain profiad cwsmeriaid yn seiliedig ar ba mor debygol ydyn nhw o argymell cynnyrch neu wasanaeth."*[6]

9. Mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda'r Banc i archwilio ei adroddiad a'i gyfrifon blynyddol ac i edrych ar berfformiad yn erbyn targedau, gyda'r sesiwn graffu olaf cyn i'r ymchwiliad hwn gael ei gynnal ar 1 Mawrth 2023.[7] Cafodd gwaith craffu ar gyfrifon 2022-23, a gyhoeddwyd ar ôl 31 Awst 2023, ei ddisodli gan yr ymchwiliad ehangach hwn i rôl a chylch gwaith y Banc. Mae sesiwn graffu nesaf adroddiad blynyddol y Pwyllgor wedi'i threfnu ar gyfer hydref 2024.

10. Ar ôl i ymchwiliad y Pwyllgor ddod i ben, adroddodd y cyfryngau gais Ysgrifennydd Gwladol Cymru i'r Prif Weinidog esbonio'r colledion a adroddwyd yn adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol y Banc ar gyfer 2022-2023 eu bod yn fwy na £62 filiwn. Adroddodd yr erthygl hefyd yr ymateb gan lefarydd y Banc yn

[6] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW05
[7] Agenda ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ddydd Mercher, 1 Mawrth 2023, 09.30 (senedd.cymru)

esbonio ffigur y colledion.[8] Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Banc yn gofyn am unrhyw effaith bosibl ar ei allu i gyflawni'r nodau a'r amcanion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a fyddai colledion yn lleihau faint o arian sydd ar gael i'r Banc ei fenthyg yn y dyfodol.

11. Cafodd y Pwyllgor ymateb manwl a chadarn gan Brif Swyddog Gweithredol y Banc, yn nodi mai £24 miliwn oedd ffigur cywir y golled ar gyfer 2022/23.[9] Datganodd nad yw'r golled yn effeithio ar allu'r Banc Datblygu i gyflawni'r nodau a'r amcanion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud bod y Banc yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei dargedau buddsoddiadau a'i ad-daliadau benthyciadau i Lywodraeth Cymru fel y nodir yn y cytundebau cyllido.

12. Aeth y llythyr ymlaen i esbonio bod y golled yn bennaf o ganlyniad i dair eitem nad ydynt yn arian parod sy'n ymarferion cyfrifo ac yn bodloni gofynion y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Yr eitemau hynny oedd colledion credyd disgwyliedig £17 filiwn, £30 miliwn o newidiadau mewn gwerth teg a £9 miliwn mewn llog tybiannol ar fenthyciadau Llywodraeth Cymru. Datganodd y Banc y dylid edrych ar arian dros y tymor hir, nid o flwyddyn i flwyddyn. Dywedodd na ddylid asesu gwargedion neu golledion o'r busnes arian yn flynyddol oherwydd bod y canlyniadau arian yn cynnwys anwadalrwydd a achosir gan symudiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn asedau a ddelir ar werth teg, y mae amodau economaidd cyffredinol yn effeithio arnynt ac sy'n amcangyfrifon heb eu gwireddu. Awgrymwyd y gallai golwg tymor hwy fesul cronfa fod yn ffordd fwy priodol o asesu perfformiad arian, sy'n cael ei fonitro drwy adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru.

13. Datganodd tystiolaeth gan Uned Ymchwil i Economi Cymru yn Ysgol Fusnes Caerdydd y canlynol:

> *"The total value of debt and equity investments made by DBW during 2022/23 was £75.8m, with equity investment made during the financial year of nearly £23m, almost double the value of the previous financial year. Meanwhile, the value of property development investments during 2022/23 totalled £48.4m. This investment model has led to positive economic*

[8] https://nation.cymru/news/david-tc-davies-challenges-vaughan-gething-over-development-bank-losses/

[9] https://busnes.senedd.cymru/documents/s150418/Llythyr%20gan%20Fanc%20Datblygu%20Cymru%2017%20Mai%202024%20Llythyr%20Cymraeg%20i%20ddilyn.pdf

> *outcomes, with almost 1,360 new jobs created and a further 2,080 jobs safeguarded, during the 2022/23 financial year."*[10]

14. O ran effaith economaidd buddsoddiadau'r Banc, aeth y dystiolaeth ymlaen i bwysleisio bod adroddiadau blynyddol Dirnad Economi Cymru yn cyfrifo gwerth ychwanegol gros Cymru a gefnogir gan y Banc:

> *"... the total direct jobs created (1,358) and safeguarded (2,076) during the 2022/23 financial year, which were linked to DBW investments, is estimated to be connected to be over £200m of GVA in gross terms and over £120m of GVA in net terms. This compares with an estimated £85.8m GVA in net terms supported during the 2021/22 financial year. The net figure takes account of deadweight, displacement, substitution, and multiplier effects. During 2022/23, this equates to an estimated net increase in Welsh GVA of around £35,100 for each job created or safeguarded."*[11]

15. Mae'r Uned Ymchwil i Economi Cymru yn nodi bod y canlyniadau hyn yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, ond maent hefyd yn debygol o fod yn geidwadol, gan eu bod yn eithrio rhai buddsoddiadau nad ydynt yn uniongyrchol ar gyfer creu/diogelu swyddi (er enghraifft, rhai sy'n gysylltiedig ag eiddo neu adeiladu). Mae hefyd yn dweud nad ystyrir y ffaith bod y mwyafrif helaeth o arian yn cael ei ad-dalu i'r Banc, a bod gweithgareddau buddsoddi hefyd yn gysylltiedig â lefelau amrywiol o drosoledd cyd-fuddsoddi/sector preifat ond nad ystyrir y rheini yn ei dadansoddiad.

16. Nododd y Banc ei ddull o olrhain bodlonrwydd cwsmeriaid yn ei dystiolaeth ysgrifenedig. Yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf, ar gyfer 2022-23[12], datgenir y cyflawnodd sgôr Hyrwyddwr Net o 88 ar gyfer y flwyddyn honno, yn seiliedig ar gyfradd ymateb o 35 y cant i arolwg o'r holl fusnesau roedd wedi'u cefnogi y flwyddyn honno. (100 fyddai'r sgôr uchaf posibl.)

17. Tynnodd Prif Swyddog Gweithredol Laserwire Solutions sylw at y ffordd roedd y Banc yn wahanol i fenthycwyr eraill:

> *"... the focus is definitely on the bigger mission of developing the Welsh economy. We have always been dealt with fairly yet firmly. The appointed advisor / contacts have helped our*

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW04
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW04
[12] Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol 2022-23.pdf (bancdatblygu.cymru)

> *management focus on what matters and have greatly aided the growth of our business. Rates are competitive and not always the absolute cheapest – but the rates charged are fair and the service is way above a simple commercial lender."*[13]

18. Yn yr un modd, roedd yr ymateb gan Brif Swyddog Gweithredol Nutrivend yn gwbl gadarnhaol am weithgareddau a chyflawniadau'r Banc, a phwysleisiodd ei ymateb ystwyth i her cefnogi busnesau drwy'r pandemig Covid-19. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol y canlynol:

> *"The Development Bank of Wales has undoubtedly been a catalyst for economic development and growth in the region. Their dedication to nurturing businesses and providing them with the necessary financial tools to thrive is evident in the success stories that continue to emerge. I have personally experienced the positive impact of their support, which has allowed my business to not only weather the challenges but also embark on a trajectory of growth."*[14]

19. Pwysleisiwyd rôl bwysig y Banc wrth helpu busnesau i wella ar ôl Covid-19 hefyd mewn tystiolaeth gan Ysgol Fusnes Caerdydd[15] a Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a ddywedodd y cafodd y Banc ran hanfodol wrth ei helpu i oroesi, gan danlinellu arwyddocâd y sefydliad wrth feithrin arloesedd a thwf, yn ogystal â darparu cyllid hanfodol mewn argyfwng.[16] Fodd bynnag, roedd yr Athro Dylan Jones-Evans yn feirniadol o ddull y Banc o ymdrin â rhai materion yn ymwneud â chymorth BBaCh, a dywedodd ei fod wedi synnu bod y Banc yn mynnu cymryd gwarantau personol ar fenthyciadau Covid.[17]

20. Ar y dechrau, cafodd y Pwyllgor nifer gymharol fach o ymatebion i'w ymgynghoriad cyhoeddus. Aeth ymlaen wedyn i gymryd ystod o dystiolaeth lafar am rôl y Banc.

21. Awgrymodd yr Athro Dylan Jones-Evans y dylai cynyddu cymorth i fusnesau newydd - sy'n creu swyddi, yn datblygu arloesi, yn tarfu ar farchnadoedd, ac yn cefnogi cymunedau - fod yn amcan allweddol i BDC.[18] Awgrymodd Cwmpas y gellid dadlau y gallai llythyr cylch gwaith y Banc gael ei gryfhau, gyda mwy o

[13] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW01
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW07
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW04
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW03
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW06
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW06

orfodaeth i weithredu, yn enwedig mewn perthynas â phrynu busnes gan weithwyr pan fo'n methu.[19]

22. Dywedodd Tegid Roberts nad oedd y Banc yn ddigon mawr gan fod llawer o'i asedau gwerth £2 biliwn ynghlwm wrth eiddo tirol ac nad yw'n weithredol yn economi Cymru. Awgrymodd os mai swyddogaeth y banc yw cefnogi busnesau bach a chanolig, microfusnesau, cynllunio olyniaeth, cynhyrchu cwmnïau cydweithredol, nid oes ganddo'r grym i wneud hynny ar hyn o bryd.[20]

23. Pan holodd y Pwyllgor Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg ("yr Ysgrifennydd Cabinet") ar y pwynt hwn, ymatebodd drwy ddweud y canlynol:

> *"I'm not sure I recognise that point about not being active in the economy. I'm sure there'll be lots of small house builders who'd probably take issue with that characterisation. I think it's an important part of the work of the bank to support development in the house building sector in particular, and that helps in many ways to drive the economy, as we understand."*[21]

24. Wrth fynd ymlaen i ymdrin â'r pwynt am faint y Banc, dywedodd y canlynol:

> *"... But the larger point you're making, about the scale, if you like, of the bank—I think it's currently the case that about £1.2 billion of funds are under management for businesses. That £2 billion figure that you gave, by the way, is equivalent to 10 per cent of the Welsh Government's entire budget, so I think that gives a bit of a sense of scale of it. I think as well, actually, that we should recognise the impact that the bank's investment decisions have in terms of the leveraging in of other funding into the economy. So, I think that, since 2017, the direct investment is just shy of £700 million, and the co-investment, the funding leveraged in by that, is just a little over £0.5 billion. So, those sums are significant, I think."*[22]

25. Roedd tystiolaeth gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru am gymorth i BBaCh yn gadarnhaol.[23] Mynegwyd y farn bod y Banc yn offeryn effeithiol,

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW02
[20] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 31 Ionawr 2024, Paragraff 122
[21] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 218
[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 218
[23] Tystiolaeth Ysgrifenedig – DBW03; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024

adnabyddus a defnyddiol yn arfogaeth Llywodraeth Cymru, ac yn un sydd wedi'i dderbyn yn gyflym gan fusnesau llai fel rhan dda o'r amgylchedd busnes.[24]

26. Mewn tystiolaeth lafar, rhoddodd Ben Cottam o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru enghreifftiau o'r hyn y gellid ei wneud i gefnogi BBaCh yn well, e.e. cefnogi entrepreneuriaid benywaidd ac anabl, a gwneud asesiad a yw'r cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir gan BDC a Busnes Cymru yn iawn ar gyfer 2024 a'r tu hwnt.[25]

27. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod cefnogi busnesau newydd wrth wraidd yr hyn y mae'r banc yn ei wneud, a'i fod am weld hynny'n digwydd ar raddfa fawr,[26] ond aeth ymlaen:

> *"... I don't think I agree that the entire focus of the bank can be on start-ups, because, clearly, we want the bank to be there to provide funding for already established businesses to grow and to take on more employees. I don't think it's a binary question; I think it's a question of the mix between the two ..."*[27]

28. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet bwysigrwydd sicrhau bod cymaint o 'gyfalaf tymor estynedig' ar gael drwy'r banc â phosibl, gan dynnu sylw bod y swm sydd ar gael wedi cynyddu, a chyda thymhorau hwy, i roi'r amser i fusnesau llai i dyfu heb bwysau allanol. Ychwanegodd fod rhaid edrych bob amser ar beth arall y gellir ei wneud.[28]

29. Gan ganolbwyntio ar y graddau y mae'r Banc wedi bodloni'r amcan o ran perchnogaeth gan y gweithwyr a nodir yn ei lythyr cylch gwaith, nododd Cwmpas yn ei ymateb i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ddechrau 2024, y cadarnhaodd tîm Perchnogaeth gan y Gweithwyr Cymru ym mhrosiect Busnes Cymdeithasol Cymru ei fod wedi cyrraedd 68 o fusnesau y mae gweithwyr yn berchen arnynt, i fyny o 37 yn 2021 a'i fod bron wedi cyflawni ei uchelgais i ddyblu maint y sector gyda thair blynedd dros ben – gan dynnu sylw at y potensial sydd gan y model hwn i fod o fudd i economi Cymru.[29] Ar 21 Mehefin, ar ôl i'r Pwyllgor orffen casglu tystiolaeth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru[30] ei bod wedi cyrraedd targed ei Rhaglen Lywodraethu, sef dyblu nifer y busnesau o'r fath erbyn 2026, gyda 74 o fusnesau yng Nghymru dan reolaeth gweithwyr.

---

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW03
[25] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig | 22 Chwefror 2024, Paragraff 257
[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 220
[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 220
[28] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraffau 301-302
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW02
[30] https://www.llyw.cymru/nid-eich-model-busnes-arferol

30. Ym mis Ebrill, roedd yr Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud wrth y Pwyllgor fod y Banc yn cefnogi uchelgais mwy o fusnesau dan arweiniad gweithwyr, ond na fyddai'n briodol ei gyfarwyddo i ymyrryd mwy, a'i fod yn credu bod terfyn ar nifer y busnesau a brynir gan weithwyr a fyddai'n dod i'r banc. Mae ffynonellau cyllid eraill y byddent yn debygol o fynd atynt.[31]

31. Nid ymrwymodd yr Ysgrifennydd Cabinet i newidiadau yn yr hyn a ofynnwyd i'r Banc mewn perthynas â phryniannau gan y gweithwyr, ond nododd fod rhai adolygiadau y gellir ystyried eu gwneud er mwyn cael rhagor o fewnwelediad i rai meysydd cyn hynny.[32]

32. Rhoddodd aelodau FinTech Cymru gryn feirniadaeth adeiladol o'r Banc a chynnig naw argymhelliad ar gyfer gwella. Rhai o'r beirniadaethau a glywodd Fintech Cymru gan ei aelodau oedd bod yr hyn sy'n cael ei gynnig yn aneglur; mae'n hynod o anodd i sylfaenwyr a busnesau newydd gael mynediad at broses BDC ac Angylion Buddsoddi Cymru (ABC); mae'r broses yn llawer rhy araf, sy'n golygu bod busnesau newydd yn methu wrth aros am ddiweddariadau; mae ymagwedd gyffredinol y Banc yn wrth-risg; mae BDC yn gosod ei hun fel cyfalafwr menter, ond mae ei weithredoedd yn brin o'r nod, ac yn aml nid yw'n ddeniadol o'i gymharu â chyfalafwyr menter eraill.[33] Manylir ar rai o'r beirniadaethau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Dywedodd y Banc wrth y Pwyllgor yn ddiweddarach ei fod yn cyfarfod yn rheolaidd â FinTech Cymru, ond bod yr Aelodau'n croesawu'r ffaith ei fod hefyd yn adrodd cynnal cyfarfod bord gron â nifer o aelodau FinTech Cymru i gael trafodaeth agored iawn am rai o'r heriau y mae wedi'u cyflwyno.[34]

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn agored i adolygu dull Llywodraeth Cymru o bryniannau gan y gweithwyr. Mae Aelodau'n teimlo y gallai fod gan y Banc gael mwy o ran wrth gefnogi pryniannau gan y gweithwyr yn y dyfodol, a byddai'n disgwyl i unrhyw adolygiad ystyried hyn yn fanwl.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o gynllunio olyniaeth a phryniannau gan y gweithwyr, a sut y gall Banc Datblygu Cymru gael mwy o ran yn hyn, wrth ddatblygu llythyr cylch gwaith nesaf y Banc.

[31] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 246
[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 248
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW08
[34] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 77

4. Cydgysylltiad strategol â blaenoriaethau'r Llywodraeth

33. Awgrymodd y dystiolaeth y gallai cydgysylltiad rhwng blaenoriaethau economaidd a strategaeth Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau a strategaeth y Banc fod yn well. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ei bod yn anodd iawn cyfeirio ei aelodau at strategaeth economaidd gan Lywodraeth Cymru sy'n mynegi beth yw'r dyhead ar gyfer entrepreneuriaeth, beth yw'r dyhead ar gyfer sectorau penodol a, thrwy hynny, beth yw rôl y Banc Datblygu yn hynny.[35] Awgrymodd Ben Cottam o Ffederasiwn y Busnesau Bach Cymru fod angen mwy o eglurder a manylion ac, ar ôl ethol y Prif Weinidog newydd, yr hoffai Ffederasiwn y Busnesau Bach Cymru weld mynegiant clir o strategaeth economaidd.[36]

34. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod rhai sectorau blaenoriaeth yn cael eu hanwybyddu a bod rhai pryderon bod gan staff ddigon o arbenigedd mewn sectorau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn eu targedu. Dywedodd yr Athro Jones-Evans eu bod yn eithaf cyffredinol o ran yr arbenigedd mewnol,[37] a thynnodd sylw at ddiffyg arbenigwyr sy'n edrych ar y diwydiannau creadigol a materion yn ymwneud ag eiddo deallusol neu asedau hawlfraint.[38] Ei farn ef oedd y dylai'r hyn roedd Llywodraeth Cymru yn ei gynnig gyda'i swyddogaeth cymorth busnes gael ei adlewyrchu gan swyddogaeth cyllid y Banc.

35. Tynnodd aelodau FinTech Cymru sylw at ddiffyg capasiti mewn technoleg a chyfalaf menter.[39] Mynegodd ei aelodau bryder ynghylch capasiti staff, gan ddweud bod gan y Banc rai pobl wirioneddol wych ond bod perygl, ar y ffurf bresennol, y bydd staff gallu uchel yn cael eu dadrithio ac yn gadael os nad yw BDC yn dechrau cystadlu â chyfalafwyr menter eraill. Dywedodd aelodau Fintech Cymru y canlynol hefyd:

> *"... both in terms of tech and VC investment, DBW are seen to fall short on expertise, with teams lacking the capability to understand potential value. It was also felt that their bench strength was falling short with Founders commenting they were going elsewhere to seek business support and coaching."*[40]

[35] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig | 22 Chwefror 2024, Paragraff 240
[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig | 22 Chwefror 2024, Paragraff 240
[37] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 31 Ionawr 2024, Paragraff 34
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 31 Ionawr 2024, Paragraff 34
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW08
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW08

36. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd y gallai'r Banc ddarparu mwy o gymorth i archwilio carbon i gyrraedd nodau sero net.[41]

37. Dywedodd y Banc wrth yr Aelodau ei fod wedi tyfu llawer a'i fod yn recriwtio ystod o arbenigwyr, ond, roedd yn edrych i fusnesau y mae'n eu cefnogi i gael yr arbenigedd sectoraidd angenrheidiol - ei rôl oedd cael arbenigedd mewn buddsoddiad a thwf. Nododd y Banc fod y pedair blaenoriaeth genedlaethol o fewn Cenhadaeth Economaidd ddiweddaraf Llywodraeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn ei gynllun corfforaethol, ac yn rhoi enghreifftiau o sut roedd ei waith yn gysylltiedig â'r Cenadaethau Economaidd, sy'n ofynnol dan ei lythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru. Soniodd y Prif Swyddog Gweithredol Giles Thorley hefyd fod gan y Banc gronfa i ddarparu cynlluniau ynni cymunedol ac adnewyddadwy.[42]

38. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai mater i'r Banc yw sicrhau bod ganddo staff priodol i fodloni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith. Dywedodd swyddogion yr Ysgrifennydd Cabinet wrth yr Aelodau eu bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, gan gynnwys mynd i gyfarfodydd bwrdd y Banc fel sylwedydd i gynrychioli'r Ysgrifennydd Cabinet fel cyfranddaliwr, a'u bod yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn i roi adborth i'r Banc, i ymateb yn eu fframwaith a chefnogi'r banc yn ei amcanion.[43] Mae swyddog hefyd yn aelod o bwyllgor archwilio a risg y Banc fel sylwedydd, ac mae'n cymryd rhan mewn adolygiadau blynyddol o gronfeydd y Banc: maent yn gwsmer ar ran y Gweinidog ar gyfer y cronfeydd hynny, felly maent yn ceisio bod yn heriol, gan edrych ar y metrigau perfformiad allweddol, perfformiad ac ati, ac maent yn rhoi cyfle i'r banc ddweud wrthynt am faterion a thueddiadau.[44]

39. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor nad oedd yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gallu dal maint llawn effaith y cyllid preifat a ddaeth i mewn i'r economi o ganlyniad i[45] fuddsoddiadau uniongyrchol y Banc. Dywedodd pe bai gan y pwyllgor sylwadau ar hynny yn ystod ei ymchwiliad, y byddai'n awyddus iawn i'w clywed.[46]

40. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r dystiolaeth a gafwyd mewn ymateb i'r cylch gorchwyl gwreiddiol am rôl gyffredinol a ffocws y Banc, a sut y mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau economaidd ac amcanion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr aeth yr ymchwiliad i gyfeiriadau gwahanol i'r hyn a ragwelwyd

[41] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig | 22 Chwefror 2024, Paragraffau 271-272
[42] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 95
[43] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 240
[44] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 240
[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 218
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 218

yn wreiddiol gan yr Aelodau. Mae canlyniadau'r gwaith ymchwilio hwn yn dangos pwysigrwydd a phrydlondeb gwaith craffu manylach ar y Banc y tu hwnt i'w gyfrifon blynyddol, yn enwedig o gofio'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chynnal yr adolygiad wedi'i deilwra roedd wedi ymrwymo iddo'n flaenorol (gweler Pennod 10 isod).

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cylch gwaith a chyfrifoldebau Banc Datblygu Cymru wedi tyfu a newid gyda threigl amser. Mae Llywodraeth Cymru wedi esbonio sut y mae swyddogion yn cymryd rhan mewn rhythm rheolaidd cyfarfodydd â'r Banc gyda statws sylwedydd, ond dylai Llywodraeth Cymru nodi'r mecanwaith ar gyfer adlewyrchu newidiadau i'w blaenoriaethau economaidd a'i ffocws dros dymor Senedd. Hoffai'r Pwyllgor i hyn gynnwys ymrwymiad i ddyroddi llythyrau cylch gwaith mwy rheolaidd i'r Banc, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny o reidrwydd.

Argymhelliad 3. Dylai Banc Datblygu Cymru ymgymryd â darn o waith, neu gomisiynu un, i roi dealltwriaeth gadarn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg o effaith y cyllid preifat a ddaw i rym o ganlyniad i fuddsoddiadau uniongyrchol gan y Banc ar economi Cymru.

Argymhelliad 4. Dylai Banc Datblygu Cymru roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor ar sut y mae'n cefnogi datblygu cynlluniau ynni cymunedol.

5. Perthynas y Banc â Busnes Cymru

41. Pan sefydlwyd y Banc, gwrthodwyd yr opsiwn posibl a gyflwynwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2015 i gyfuno cymorth busnes a'r swyddogaeth cyllid dan un sefydliad. Fodd bynnag, clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan arbenigwyr[47] a Banc Datblygu Busnes Canada bod y model hwn yn gweithio'n dda.[48]

42. Cododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a'r Athro Jones-Evans y mater bod llawer o ddarparwyr cymorth busnes wahanol yn weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd – megis Busnes Cymru, y Banc Datblygu, Banc Busnes Prydain, y Bargeinion Dinesig a Thwf, yn ogystal â Chronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a'r Gronfa Ffyniant Bro.

43. Awgrymodd Ben Cottam o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, yn seiliedig ar brofiad aelodau'r Ffederasiwn Busnesau Bach, fod croesgyfeiriad rhwng y Banc a Busnes Cymru, ond, nad oedd yn gallu gwneud sylw ar effeithiolrwydd y broses atgyfeirio.

44. Awgrymodd y Banc mai ei ddull bob amser yw ceisio meithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid yn yr ecosystem drwy gyfleu'n glir ac yn gyson sut y gall helpu. Dywedodd y canlynol:

> *"Rydym yn gweithio'n agos gyda Busnes Cymru, gan ei gwneud yn haws ac yn symlach i fusnesau gael gafael ar gymorth ochr yn ochr â chyllid. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd drwy gysylltiadau strategol a gweithredol ac mae Busnes Cymru yn parhau i fod yn ffynhonnell fwyaf blaenllaw o atgyfeiriadau bargen ar gyfer y tîm micro-fenthyciad."*[49]

45. Aeth tystiolaeth ysgrifenedig y Banc ymlaen i ddweud, er nad yw'n darparu gwasanaethau cymorth, ei fod yn "cefnogi cwmnïau portffolio i lywio'r ecosystem cymorth busnes ehangach a chynnig gweithdai a seminarau arbenigol wedi'u targedu ac, mewn rhai achosion, mynediad at wasanaethau ymgynghori a ariennir yn rhannol."[50]

[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraffau 12, a 15-16
[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 295-298
[49] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig – Eitem 3
[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig – Eitem 3

46. Awgrymodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod y Banc mewn tirwedd cymorth busnes hynod dameidiog[51] ac mai nawr yw'r adeg i 'bwyso a mesur' y ffordd y mae cymorth busnes yn cael ei ddarparu yng Nghymru. Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet â'r farn hon a dywedodd ei bod yn adeg synhwyrol i edrych a oes mwy y gellir ei wneud i integreiddio cymorth busnes a swyddogaethau'r banc[52] a sicrhau cynnig symlach.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adolygiad o swyddogaethau Busnes Cymru ac archwilio dichonoldeb a dymunoldeb integreiddio'r swyddogaethau hyn yng nghylch gwaith Banc Datblygu Cymru, a chanolbwyntio ar symleiddio'r cynnig cymorth i fusnesau. Dros y 6-12 mis nesaf, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ystyried y mater hwn, a rhoi sail resymegol glir dros y penderfyniad a wnaed o ganlyniad.

[51] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 241
[52] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 210

6. Ailddosbarthu'r Banc gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

47. Ailddosbarthodd y SYG Grŵp Banc Datblygu Cymru, ac eithrio FW Capital Limited, fel "Llywodraeth Ganolog" ym mis Awst 2021, a gafodd ei ôl-ddyddio i fis Medi 2017, pan ffurfiwyd y Banc o Cyllid Cymru. Cadwodd FW Capital ei ddosbarthiad fel "Corfforaeth Gyhoeddus".

48. Mae'r Banc yn nodi mewn tystiolaeth ysgrifenedig bod yr "ailddosbarthu hwn, na ragwelwyd, yn golygu bod Grŵp Banc Datblygu Cymru, ac eithrio FW Capital o fewn ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru ac mae FW Capital y tu allan i ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru".[53] Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF ynghylch y dull cyllidebol tymor hir o drin Grŵp y Banc Datblygu.

49. Datganodd y Bank nad yw'r:

> *"[ail]ddosbarthiad a'r oedi o ran ail-broffilio cyllideb â Thŷ Parod yn effeithio ar y gweithgareddau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ond mae'n parhau i fod yn risg gyllidebol (y llywodraeth) sylweddol mewn amgylchiad lle mae gweithgarwch buddsoddi wedi'i gyfyngu gan yswiriant cyllideb yn hytrach na'r arian sydd ar gael."*[54]

50. Tynnodd y Banc a'r Ysgrifennydd Cabinet sylw at ailddosbarthiad y SYG fel yr her fwyaf dybryd y mae'r Banc yn ei hwynebu ac awgrymodd fod angen ei datrys ar frys. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y mater cyfrif dwbl a gododd o ganlyniad i'r newid:

> *"... Previously, once the bank had received funding from the Welsh Government, it was treated as spent; now it's only treated as spent when it's invested. So, we have to account for that money having been passed over, but we also now have to account, under the new treatment, for the difference between the capital spent and the capital received by the bank in any one year. We are trying to find a solution to that with the Treasury at the moment. We haven't yet found a solution. It is*

[53] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig – Eitem 3
[54] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig – Eitem 3

> *important that we do, because it creates a double exposure in our accounts."*[55]

51. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn ceisio yswiriant cyllideb ychwanegol gan y Trysorlys ar gyfer sut y mae'r banc yn gweithredu.[56]

Argymhelliad 6. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru geisio dod â negodiadau i ben â Thrysorlys EF cyn gynted â phosibl ar ddatrysiad boddhaol i'r mater ailddosbarthu ar gyfer Banc Datblygu Cymru. Mae rhaid i'r cytundeb y deuir iddo ddiogelu rôl y Banc ac osgoi cyfyngu ar ei weithgareddau fel benthyciwr, ac mae rhaid iddo sicrhau hefyd nad yw'n cael effaith andwyol ar sefyllfa gyllidebol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

52. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ysgrifennu at Ganghellor y Trysorlys, fel blaenoriaeth, i geisio terfyniad cynnar a boddhaol i drafodaethau â Llywodraeth Cymru, am y rhesymau uchod. Mae'r Aelodau'n pryderu am y goblygiadau sylweddol os na chaiff y mater hwn ei ddatrys ar frys. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cael copi o'r ohebiaeth hon.

[55] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 193
[56] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 193

7. Statws y Banc

53. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wedi cynnig y dylai fod Bil datblygu economaidd i Gymru a fyddai'n rhoi'r Banc Datblygu, Busnes Cymru a'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar sail ddeddfwriaethol. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru o'r farn y byddai hyn yn gwreiddio'r Banc i feddwl yn fwy tymor hir am dwf economi Cymru ac yn egluro rôl y Banc yn y sgwrs honno.[57]

54. Mewn tystiolaeth lafar, nododd Ben Cottam o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru enghraifft Awdurdod Datblygu Cymru yn cael ei ategu gan ddeddfwriaeth. Dywedodd fod gwneud hynny yn rhoi hyder i gwsmeriaid, sefydliadau sy'n buddsoddi yng Nghymru a busnesau bach a chanolig, bod dull tymor hir sy'n debygol o fod yn llai agored i newidiadau cyfeiriad gan y Llywodraeth.[58]

55. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban a Banc Datblygu Busnes Canada. Mae'r ddau sefydliad hyn yn eiddo cyhoeddus ac mae'r ddau wedi'u sefydlu yn y gyfraith. Yn yr un modd, crëwyd Banc Busnes Prydain a Banc Seilwaith y DU ar sail statudol.

56. Mewn tystiolaeth lafar, tynnodd Karen Kastner o Fanc Datblygu Busnes Canada sylw at y manteision a geir o'u sefydlu ar sail ddeddfwriaethol,[59] a chyfeiriodd cynrychiolwyr Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban hefyd at eglurder a sicrwydd[60] sail ddeddfwriaethol.

57. Dangosodd tystiolaeth ysgrifenedig gan Fanc Datblygu Cymru ei fod yn agored i'r cynnig hwn. Ond nododd fod llawer o fanteision sail statudol eisoes wedi'u sefydlu drwy ei fframweithiau a'i gweithdrefnau gweithredu presennol, gyda chysondeb polisi'n cael ei reoli drwy'r cytundeb fframwaith â Llywodraeth Cymru a'r llythyr cylch gwaith. Datganodd y canlynol:

> *"Yn ein barn ni, un budd o symudiad o'r fath fyddai sicrwydd tymor hwy a allai agor mwy o gyfleoedd i gael mynediad i gyfalaf preifat."*[61]

58. Aeth tystiolaeth ysgrifenedig y Banc ymlaen i nodi rhagor o fuddion yn ymwneud â mwy o hyder a sicrwydd i fuddsoddwyr a'r gymuned fusnes, ond nododd fod angen iddo fod yn rhan o strategaeth dymor hir dros ddegawdau,

[57] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW 03
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 249
[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraffau 306-308
[60] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 27
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig – Eitem 3

gyda deddfwriaeth "yn ddigon penodol er mwyn dod ag eglurder ac yn ddigon eang i ganiatáu digon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â marchnad sy'n newid."[62]

59. Wrth glywed tystiolaeth lafar gan y Banc, cydnabu ei Brif Swyddog Gweithredol Giles Thorley fod tystiolaeth Canada yn gymhellol.[63] Fodd bynnag, awgrymodd Gareth Bullock, Cadeirydd y Banc, y byddai angen adolygiad priodol o'r opsiynau a'r goblygiadau[64] gan dasglu a gaiff ei sefydlu at y diben hwnnw. Dywedodd nad oedd Bwrdd y Banc wedi trafod y mater yn ffurfiol ac felly nad oedd ganddo safbwynt ffurfiol arno.[65]

60. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn dda bod galwadau i'r Banc gael ei roi ar sail ddeddfwriaethol, gan ei fod yn awgrymu ei fod yn cael ei werthfawrogi fel rhan o'r ecosystem cyllid busnes yng Nghymru. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud ei fod yn rhywbeth i'w ystyried ar ryw adeg, ond nad yw'n teimlo fel y flaenoriaeth bwysicaf.[66]

Casgliad 2. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai rhoi'r Banc ar sail ddeddfwriaethol fod o fudd yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae materion mwy dybryd y mae angen eu datrys gyntaf, megis ailddosbarthiad y Banc, ac felly mae'n argymell cynnal adolygiad ynghylch a ddylid gosod y Banc ar sail statudol ar ôl hynny.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ynghylch a ddylid gosod Banc Datblygu Cymru ar sail statudol, ond dylid gwneud y gwaith hwn ar ôl i fater ailddosbarthiad y Banc gael ei ddatrys. Dylai'r adolygiad ystyried pa elfennau o gylch gwaith y Banc y gellid ac y dylid eu gwneud yn statudol. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn rheolaidd am ddatblygiadau ac amserlenni arfaethedig ar gyfer y gwaith hwnnw.

[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig – Eitem 3
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 61
[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 60
[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 60
[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 200

8. Annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru a diwydrwydd dyladwy

61. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd, a rhoddwyd hynny iddynt, ynghylch annibyniaeth y Banc rhag gwneud penderfyniadau gwleidyddol neu ddylanwad o ran y benthyciadau y mae'n eu rhoi a'r buddsoddiadau y mae'n eu gwneud. Dywedodd Prif Swyddog Gweithredol y Banc wrth y Pwyllgor y gall roi pob sicrwydd bod annibyniaeth lawn.[67]

62. Aeth Cadeirydd y Banc ymlaen i bwysleisio fel a ganlyn:

> *"... we're not a lender of last resort in the sense of saying, 'We will have to do it.' And a lender of last resort, when it's a Government, tends to involve political considerations. And I can say that I've been chair for nine years and not once has the board ever had an instruction or a direction to do anything of that ilk."*[68]

63. Pan gafodd ei holi am y berthynas rhwng y Banc a Llywodraeth Cymru, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at ddogfen fframwaith sy'n llywodraethu'r berthynas honno ac yn sail iddi. Gan nad yw'r ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd, ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Cabinet i ofyn am gopi[69] a chafodd ymateb gyda'r ddogfen wedi'i llofnodi.[70] Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y ddogfen fframwaith yn datgan y bwriad i adneuo fersiwn wreiddiol 2017, a phob fersiwn ddilynol o'r ddogfen, yn Llyfrgell y Senedd, i'r holl Aelodau o'r Senedd gael mynediad ati, ond nad yw hyn wedi'i wneud hyd yn hyn.

64. Rhoddodd swyddogion o'r Banc dystiolaeth i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar 28 Chwefror 2024, am ei ymchwiliad i gymorth busnes yng Nghymru, a chyfeiriodd hefyd at ddogfen fframwaith yn y sesiwn honno. Wrth ateb cwestiwn a yw'r Banc yn cefnogi busnesau yn y sector amddiffyn, dywedodd Rhian Elston, Cyfarwyddwr Buddsoddi'r Banc y canlynol:

> *"The guidance that is in our document is: are there any reputational issues that we need to consider or are there any ESG [environmental, social or governance] considerations that we need to bring into mind? So there isn't a blanket thing that*

[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 10
[68] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 17
[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Papur i'w nodi 2.9
[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Papur i'w nodi 2.1

> *we cannot support the defence sector, and we have supported business in that area. It is about us making an assessment when the deal comes in: what do they do? Are there any concerns? We will sometimes refer that to the Welsh Government…"*[71]

65. Pan gafodd ei holi am ddiwydrwydd dyladwy y Banc ar ei fenthyciadau i Grŵp Amgylcheddol Dauson, dywedodd Giles Thorley wrth y Pwyllgor hwn mai'r mater penodol y maent yn edrych arno yw'r benthyciadau i fusnes, a bod y busnesau roedd Mr Dauson yn eu rheoli'n fusnesau a oedd wedi benthyg o'r blaen ac wedi llwyddo i ad-dalu'r arian o'r blaen.[72] At hynny, dywedodd wrth yr Aelodau, er bod y Banc yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy cymharol helaeth, fod rhai cyfyngiadau ar yr hyn y cânt ddod o hyd iddo.[73] Dywedodd hefyd na fyddai, yn y rhan fwyaf o'r achosion, yn cynnal gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) ar yr unigolion sy'n gwneud cais am y benthyciad.

66. Pan gafodd ei holi yn yr un cyfarfod ar 24 Ebrill 2024 a oedd yn fodlon â phrosesau diwydrwydd dyladwy'r Banc ar gyfer rhoi benthyciadau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"… Well, those are operational questions, so I think it's important that the bank operates as a bank, at arm's length from the Government, and it will have processes in place to undertake diligence in relation to the loans that it provides, and I think that's in the hands of the bank's executive, answerable to its board."*[74]

67. Pan gafodd ei bwyso ymhellach ar y mater, aeth ymlaen i ddweud nad ei le ef yw bod yn y broses ddiwydrwydd dyladwy; mater i'r banc ei hun yw hynny. Dywedodd fod dogfen fframwaith, sy'n darparu nad yw Gweinidogion yn ymwneud â gweithrediadau'r banc yn y ffordd y byddai'n ofynnol iddynt fod yn y cwestiwn hwnnw.[75]

68. Yn dilyn hynny, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, ar 1 Mai 2024 ar gyfer ymholiadau i'r diwydiant amddiffyn yng Nghymru ac effaith newid poblogaeth yng Nghymru. Wrth ateb cwestiwn ar fenthyciad y Banc i Grŵp Amgylcheddol Dauson yn ystod y sesiwn honno gydag Aelodau Seneddol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthynt ei

[71] Hansard Tŷ'r Cyffredin: https://committees.parliament.uk/oralevidence/14365/pdf/
[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 200
[73] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 27
[74] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 226
[75] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 228

fod wedi gofyn i'r Banc fyfyrio a oes profiad diweddar yn achosi iddo edrych eto ar ei brosesau diwydrwydd.[76]

69. Nid yw'r ddogfen fframwaith a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cyfeirio'n benodol at sut y mae ystyriaethau ESG (Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu) a risgiau i enw da yn cael eu rheoli, a sut y mae materion yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi y cyfeirir at ystyriaethau ESG yn helaeth yn Adroddiad Blynyddol y Banc ar gyfer 2022-23, gan gynnwys yn yr adran sy'n ymwneud â Fframwaith Rheoli Risg y Banc.

70. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Banc ar 12 Mehefin[77] yn ceisio rhagor o eglurhad o'r ddogfen y cyfeiriwyd ati mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig. Mae tudalen 2 o'r ddogfen fframwaith yn nodi iddi gael ei diwygio yn 2021 i egluro ymreolaeth BDC o ran gwneud penderfyniadau. Felly gofynnwyd am eglurder a oedd fersiwn gynharach o'r ddogfen fframwaith yn cynnwys y wybodaeth honno, neu a oes dogfen ychwanegol sy'n llywodraethu sut y mae materion ESG a risg i enw da yn cael eu rheoli fel rhan o'r berthynas rhwng y Banc a Llywodraeth Cymru.

71. Ymatebodd Prif Swyddog Gweithredol y Banc ar 24 Mehefin[78], gan esbonio mai'r canllawiau y cyfeiriwyd atynt mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig oedd y canllawiau gweithredu buddsoddi sy'n ddogfennau mewnol i Fanc Datblygu Cymru. Aeth ymlaen i esbonio bod gan bob cronfa a reolir gan y Banc ei chanllawiau gweithredu ei hun, y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru ar ddechrau cronfa, a nododd baramedrau'r gronfa gan gynnwys meysydd megis telerau buddsoddi, adrodd a chymhwysedd yn y sector. Nododd fod y canllawiau hefyd yn cynnwys llinell gyffredinol y gwaherddir gweithgareddau a allai ddwyn anfri ar y Banc Datblygu neu Lywodraeth Cymru.

72. Esboniodd Giles Thorley ymhellach:

> *"In practice, and in a very limited number of cases, the view of the Welsh Government about a business activity where a concern has been identified is sought from the partnership team. As you have noted, in line with the framework agreement, investment decision making is taken independently of the Welsh Government (3.22) and in line with the fund agreements and associated documentation (4.19, 4.20). The corporate plan 2022/27 set out our plans to increase focus on*

[76] Hansard Tŷ'r Cyffredin: https://committees.parliament.uk/oralevidence/14753/pdf/
[77] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mehefin 2024, Papur i'w nodi 2.1
[78] Gwybodaeth ychwanegol - Llythyr at y Cadeirydd gan Fanc Datblygu Cymru – 24 Mehefin 2024

> *environmental, social and governance (ESG) matters as part of investment decision making (p37) and we became signatories to the UN backed Principles of Responsible Investment in 2023."*[79]

Casgliad 3. Roedd yn ymddangos bod ymateb y Banc i gwestiynau'r Pwyllgor hwn ynghylch diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â benthyciadau Dauson yn seiliedig ar allu'r cwmni i ad-dalu fel y penderfynydd allweddol. Er bod y Banc yn benthyca ar sail fasnachol, mae hefyd yn defnyddio arian cyhoeddus i wneud benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti. Nid oes awgrym nad yw'r Banc yn defnyddio dulliau safonol o asesu ceisiadau am fenthyciad. Fodd bynnag, mae gwaith craffu ar y benthyciadau i Grŵp Amgylcheddol Dauson yn tynnu sylw at bwysigrwydd diwydrwydd dyladwy cadarn i osgoi, neu o leiaf nodi, y posibilrwydd y bydd y Banc yn benthyca i gwmnïau y mae eu gweithgareddau'n torri rhwymedigaethau statudol ac ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru, neu y canfuwyd eu bod wedi torri'r gyfraith. Mae'r Pwyllgor yn nodi, er bod adroddiad blynyddol diweddaraf y Banc a gyhoeddwyd ar gyfer 2022-23 yn nodi sut y mae'n ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) fel rhan o'i asesiad risg, nid yw'r cytundeb fframwaith rhwng y Banc a Llywodraeth Cymru, a gafodd ei lofnodi yn 2017 a'i ddiweddaru yn 2021, yn benodol ar y pwynt hwn. Ymatebodd y Banc i gais y Pwyllgor am ragor o eglurhad, gan esbonio bod ganddo ganllawiau gweithredu cronfa mewnol y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru, a chyfeirio at achosion 'cyfyngedig iawn' o gyfeirio materion at Lywodraeth Cymru. Mae'r Aelodau'n gwerthfawrogi cydweithrediad y Banc wrth ymateb ar y mater hwn, a bod materion cyfrinachedd masnachol ac annibyniaeth weithredol i'w hystyried. Fodd bynnag, nid yw'r amgylchiadau a'r union broses y bydd y Banc yn cyfeirio materion neu bryderon at Lywodraeth Cymru i'w hystyried yn hollol glir o hyd. Nid yw'n glir chwaith o'r ymateb gan y Banc yn union pa rôl sydd gan Weinidogion Cymru, os o gwbl, yn y broses hon. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y materion diwydrwydd dyladwy hyn yn fanwl iawn fel rhan o drywydd ei ymchwiliad. Er ei fod yn derbyn bod rhaid i'r Banc fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a hynny'n amlwg, mae o'r farn bod angen llawer mwy o eglurder a thryloywder ynghylch y prosesau diwydrwydd dyladwy hyn, er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r cyhoedd. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig, ei fod wedi gofyn i'r Banc edrych ar hyn eto. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Banc mewn sesiynau craffu rheolaidd yn y dyfodol.

[79] Gwybodaeth ychwanegol - Llythyr at y Cadeirydd gan Fanc Datblygu Cymru – 24 Mehefin 2024

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Fanc Datblygu Cymru adolygu ei brosesau diwydrwydd dyladwy, gyda'r bwriad o nodi a oes angen eu cryfhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am y cwmpas, y cynnydd, y canlyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt sy'n deillio o'r adolygiad hwn.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru adneuo pob fersiwn yn Llyfrgell y Senedd hyd yn hyn o'r ddogfen fframwaith sy'n nodi ei pherthynas â Banc Datblygu Cymru, a sicrhau y gwneir yr un peth ar gyfer unrhyw fersiwn yn y dyfodol.

9. Llywodraethu a chwynion

73. Mae'r bennod hon yn cynnwys trosolwg o gwynion cyfrinachol a chyhoeddus a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn ystod ei ymchwiliad. Fodd bynnag, dylid nodi y bu'n anodd i'r Aelodau wirio rhywfaint o'r hyn a ddywedwyd, ac adrodd arno, yn enwedig gan fod rhai achwynwyr wedi bod yn amharod i ddod ymlaen yn gyhoeddus.

74. Cafwyd y cwynion cyfrinachol yn dilyn gwaith rhagweithiol gan Dylan Jones-Evans a Fintech Cymru i annog pobl roeddent yn ymwybodol ohonynt a gafodd brofiadau negyddol gyda'r Banc i roi manylion i'r Pwyllgor. Daethant i law ar ôl i ymgynghoriad cyhoeddus y Pwyllgor ddod i ben. Cafodd yr holl gwynion a gafwyd fel hyn eu gweld gan yr Aelodau mewn fformat dienw.

Buddsoddiadau ecwiti

75. Nododd yr Athro Dylan Jones-Evans y cynigiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar sefydlu'r Banc Datblygu elfen fwy gweithredol o gyllid ecwiti ar gyfer arian BDC, yn enwedig ar gyfer cwmnïau technoleg, ond nad yw hynny wedi digwydd yn y ffordd ddisgwyliedig.[80] Dywedodd aelodau FinTech Cymru, er bod y Banc Datblygu yn gosod ei hun fel cyfalafwr masnach, fod ei weithredoedd yn brin o hynny, ac yn aml nid yw'n ddeniadol o'i gymharu â chyfalafwyr masnach eraill. Awgrymodd aelodau FinTech Cymru ymhellach y gallai'r telerau sy'n cael eu cynnig ar fuddsoddiadau yn aml ei gwneud yn afresymol i fusnesau wneud cynnydd pellach, a'u bod yn risg i sylfaenwyr dibrofiad. Roedd aelodau FinTech Cymru hefyd yn teimlo bod cwmnïau yn aml yn cael eu tanbrisio.[81]

76. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â thystiolaeth ysgrifenedig gan yr Athro Jones-Evans, lle y mae'n datgan y canlynol:

> *"Unfortunately, I have been approached by a range of businesses prior to this review who feel that they have not been treated fairly with valuations being too low, where decisions have taken far too long, and where terms are unacceptable with a 'take it or leave it' attitude. Worst still, there have been instances where some have been bullied by the directors imposed on them, where they have been forced out by dubious means and where founders feel they have not been supported by the Bank. This has happened to several young inexperienced*

[80] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW06
[81] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW08

> *founders who should have been given far greater support at the time by the Development Bank as their business' main funder."*[82]

77. Roedd y cwynion a gafwyd gan y Pwyllgor yn canolbwyntio ar fuddsoddi ecwiti a'r cyfarwyddwyr buddsoddi a benodwyd ar ran y Banc. Gwnaeth Andrew Ling gyhuddiad yn benodol y penododd Banc Datblygu Cymru gynghorwyr a gymerodd ei fusnes oddi wrtho.[83]

78. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor hefyd wedi cael tystiolaeth gadarnhaol am y broses angylion buddsoddi gan berchennog busnes a ddywedodd ei bod yn gyfryngol wrth alluogi ei fusnes i dyfu.[84] Gofynnodd y Pwyllgor hefyd yn benodol i Sefydliad y Cyfarwyddwyr a oedd wedi clywed adborth negyddol a dywedodd ei fod wedi clywed adborth cadarnhaol yn unig.

79. Dywedodd y Banc fod defnyddio cyfarwyddwyr buddsoddi yn arfer safonol mewn cyfalaf menter a bod ganddo gronfa ddata o 165 o ymgeiswyr posib â diddordeb, ond bod y rhestr yn esblygu'n gyson.[85] Mewn llythyr yn dilyn sesiwn y Pwyllgor gyda'r Banc, nododd y Prif Weithredwr y gwnaeth ailbenodi'r un bobl sawl gwaith os oedd yn credu eu bod yn cydweddu'n dda ac â chapasiti.[86]

80. Dywedodd y Banc y byddai cyfarwyddwyr buddsoddi bob amser yn gweithio er budd y cwmni ei hun, fel mater o gyfraith cwmnïau. Cadarnhaodd y Banc hefyd fod ei gyfarwyddwyr buddsoddi wedi cael eu symud yn y gorffennol, ond mater i fwrdd y cwmni fyddai gwneud penderfyniad a byddai hyn wedyn yn cael ei gyfeirio at y Banc am gydsyniad.[87]

81. Mewn llythyr dilynol at y Pwyllgor, nododd y Banc, drwy ei rôl fonitro, ei fod yn ystyried penderfyniadau a chynigion bwrdd cwmni lle y mae cyfarwyddwr buddsoddi sy'n cynnwys y cyfarwyddwr buddsoddi, ond nad yw'n arfer rheolaeth ar gyfarwyddwr buddsoddi.[88] Fodd bynnag, gwnaeth nodi y gall symud a newid cyfarwyddwr buddsoddi, ond y gwneir hyn fel arfer oherwydd twf busnes neu newid trywydd.

---

[82] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW06
[83] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Llythyr gan Andrew Ling ynghylch Banc Datblygu Cymru, Papur i'w nodi Eitem 2 (Saesneg yn unig)
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW01
[85] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 181
[86] Llythyr gan Fanc Datblygu Cymru, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Mai 2024, Papur i'w nodi Eitem 2.2 (Saesneg yn unig)
[87] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 159
[88] Llythyr gan Fanc Datblygu Cymru, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Mai 2024, Papur i'w nodi Eitem 2.2 (Saesneg yn unig)

82. Clywodd y Pwyllgor gan Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban a Banc Datblygu Busnes Canada eu bod yn gwneud penodiadau tebyg mewn perthynas â buddsoddiadau ecwiti. Fodd bynnag, dywedodd Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban wrth y Pwyllgor fod penodi cyfarwyddwr buddsoddi yn gam posibl y gallai'r banc ei gymryd, ond nad yw'n rhywbeth y byddai'n ystyried ei roi ar fusnes neu ar sylfaenydd.[89]

83. Gan roi sylw penodol i'r gŵyn a wnaed gan Mr Ling i'r Banc, a'i dystiolaeth i'r Pwyllgor am rôl Cyllid Cymru (rhagflaenydd y Banc, a oedd wedi buddsoddi yn ei fusnes), rhoddodd y Banc ymateb manwl i'r Pwyllgor ar y modd y cafodd y gŵyn ffurfiol ei drin, na chafodd ei chynnal. Yn y llythyr hwnnw, gwrthododd y Banc honiad Mr Ling ynglŷn â phenodi cynghorwyr. Dywedodd Prif Swyddog Gweithredol y banc y canlynol:

> *"... Our records show that there was no requirement in the investment agreement with Finance Wales, for the company to appoint an advisor. Finance Wales exercised a right to attend board meetings as a shareholder observer but did not take up its right to appoint an investor director."*[90]

84. Testun pryder arall i'r aelodau oedd honiad Andrew Ling bod cyflogi arbenigwr a benodwyd gan fanc ar gyflog £150,000 y flwyddyn yn amod o'i fenthyciad.[91] O ran talu cyfarwyddwyr buddsoddi, dywedodd y Banc wrth y Pwyllgor mai mater i'r cwmni ydyw. Dywedodd Rhian Elston wrth yr Aelodau fod tâl yn drafodaeth rhwng y cwmni a'r cyfarwyddwr buddsoddi ac mai'r cwmni sy'n gwneud y penderfyniad ynglŷn â faint y dylai'r unigolyn gael ei dalu.[92]

85. Pan gafodd ei holi a oedd yn fodlon ar y ffordd y mae'r Banc yn penodi cyfarwyddwyr buddsoddi, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'n ymwybodol o bryderon penodol ynghylch hynny. Ychwanegodd ei bod yn bwysig iawn eu bod bob amser yn sicrhau bod y bobl sy'n cael eu penodi'n gyfarwyddwyr anweithredol yn ychwanegu gwerth at y cwmni.[93] Yn gynharach yn y cyfarfod roedd wedi dweud y gellir cael problemau mewnol gyda chyfarwyddwyr buddsoddi gan y byddant yn newydd i'r cwmni a'i fod yn meddwl y gallai'r

[89] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 43
[90] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Papur i'w nodi Eitem 2.5 (Saesneg yn unig)
[91] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Llythyr gan Andrew Ling ynghylch Banc Datblygu Cymru, Papur i'w nodi Eitem 2 (Saesneg yn unig)
[92] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 181
[93] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 279

agwedd yng Nghymru tuag at fuddsoddiad ecwiti fod ychydig yn fwy ceidwadol nag mewn mannau eraill.[94]

Casgliad 4. Cyn yr ymchwiliad hwn, roedd diffyg tryloywder ynghylch y broses o ddod o hyd i gyfarwyddwyr buddsoddi a'u penodi. Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth y Banc ar y mater ac yn teimlo bod hyn wedi gwneud tipyn i ddatgyfrinio'r broses benodi. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth wrthgyferbyniol ar y broses gan unigolion sydd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor am eu profiadau gyda'r Banc. Gan y cafwyd rhywfaint o'r dystiolaeth hon yn ddienw neu'n gwbl gyfrinachol, bu'n anodd i'r Aelodau ei hintegreiddio'n llawn yn yr adroddiad hwn. Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan Mr Ling a'r Banc mewn perthynas â'i gŵyn ar gael i'r cyhoedd ac mae wedi'i hadlewyrchu.

Y broses gwyno

86. Yn wreiddiol, dygodd yr Athro Dylan Jones-Evans honiadau yn erbyn y Banc at sylw'r Pwyllgor, a mynegodd bryderon ynghylch ofn y byddai busnesau o bosibl yn cael eu cosbrestru pe baent yn gwneud cwyn.[95] Ategwyd yr ofn hwn gan yr achwynwyr a gysylltodd â'r Pwyllgor yn uniongyrchol wedi hynny, ar ôl i'r Aelodau ofyn am weld tystiolaeth i ddangos geirwiredd yr honiadau. Roedd yr Athro Jones-Evans wedi dweud y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"I've also seen instances—and I know this because I've had to intervene on a number of occasions to help these businesses—where directors have been imposed on businesses, where they feel they've been bullied by those directors, where there have been moves to basically get rid of the original founders. And the development bank as a funder has just stood there and done nothing, and I think that is quite an important element of the way that the bank is perceived. And if that does happen, and I know it does happen—. But, again, if I asked those people to come in front of the committee today, they'd say, 'Oh, I'm not putting my head above the parapet, why would I do that?' But I know, because I have documented evidence on all of this.*
>
> *"And to be fair, that is really unacceptable, because if this is supposed to be something different—. And I know that there are two sides to every story and I know this is a commercial world, but I think every individual who approaches the bank and then subsequently gets funding has the right to be treated with the*

[94] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 271
[95] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 31 Ionawr 2024, Paragraff 86

> *respect that they do when setting up that business. And that hasn't happened, on a number of occasions, to—and this is what I've found strangest of all—individuals who, shall we say, have quite a considerable business reputation in Wales."*[96]

87. Awgrymodd yr Athro Jones-Evans y dylid sefydlu panel annibynnol – ar wahân yn llwyr i reolwyr cyfrif a chyfarwyddwyr y Banc - er mwyn codi pryderon ac ymchwilio iddynt.[97] Cytunodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y gellid edrych ar y cynnig hwn.[98]

88. Rhoddodd y Banc fanylion i'r Pwyllgor ar ei broses gwyno bresennol.[99] Esboniodd fod dau o gwmnïau Grŵp y Banc Datblygu wedi eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer darparu credyd defnyddwyr rheoledig. Y rhain yw is-gwmnïau'r Grŵp sy'n ymwneud â darparu cyllid micro i gwsmeriaid busnes a'r cynllun Cymorth i Brynu (Cymru) ar ran Llywodraeth Cymru.

89. Er mwyn sicrhau bod pob achwynydd yn cael tegwch ac amseroldeb cyfwerth o ran datrys cwynion, dywedodd y Banc fod ei ddull o ymdrin â chwynion yn "gyson ar draws pob maes o'r busnes ac mae'n cyd-fynd â'r safonau sy'n ofynnol gan yr FCA mewn perthynas â gweithgarwch rheoledig (er nad yw pob is-gwmni grŵp eu hunain yn cael eu rheoleiddio gan yr FCA)." Yn unol â hynny, nod y Banc yw "darparu datrysiad cynnar i gwynion o fewn 3 diwrnod gwaith i'w derbyn, ac os yw hyn yn aflwyddiannus neu os nad yw'n bosibl, yna'r nod yw datrys o fewn 8 wythnos."[100]

90. Os na chaiff cwyn ei datrys wrth fodd yr achwynydd, mae llwybrau uwchgyfeirio ar gael. Yn achos is-gwmnïau'r Grŵp a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, mae gan achwynwyr cymwys yr opsiwn i gyfeirio eu cwyn at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.[101] O ran cwynion eraill, y llwybr uwchgyfeirio yw troi at aelod o Dîm Arwain Buddsoddiadau'r Grŵp.

91. O ran nifer y cwynion a geir, dywedodd y Banc fod:

> *"nifer y cwynion a dderbynnir gan y Grŵp yn gymharol fach. Yn y flwyddyn 2023/24 cawsom 1,765 o geisiadau am gyllid*

[96] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 31 Ionawr 2024, Paragraffau 88-89
[97] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW06
[98] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 304
[99] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Ppaur tystiolaeth – Eitem 3
[100] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Ppaur tystiolaeth – Eitem 3
[101] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Ppaur tystiolaeth – Eitem 3

> *busnes ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd ein portffolio yn cynnwys 3,764 o fusnesau.*
>
> *Yn erbyn y cefndir hwn cawsom 11 cwyn yn ymwneud â'n gweithgaredd benthyca a buddsoddi busnes. Roedd 12 achos pellach lle roedd cwsmeriaid yn rhoi adborth ar ein gwasanaeth ond heb gwyno.*
>
> *Nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw un o'r cwynion hyn wedi cael eu cynyddu i FOS."*[102]

92. Gofynnodd yr Aelodau hefyd i gynrychiolwyr banciau datblygu eraill am eu gweithdrefnau cwyno. Dywedodd Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban wrth y Pwyllgor ei fod yn dilyn canllawiau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ynghylch trin cwynion a'i fod yn eithaf cyson â'r broses honno[103], a nododd yr Aelodau hefyd fod gan Fanc Datblygu Busnes Canada, sydd ar sail statudol, ei Ombwdsmon ei hun.[104] Rôl yr Ombwdsmon yw sicrhau bod Banc Datblygu Busnes Canada yn mynd i'r afael â phryderon gweithwyr, cleientiaid a chyflenwyr a materion na ellid eu datrys drwy brosesau datrys eraill. Gan adrodd i Lywydd a Phrif Swyddog Gweithredol Banc Datblygu Busnes Canada, mae'r Ombwdsmon yn goruchwylio'r ffordd y gweithredir Siarter Hawliau Cleient Banc Datblygu Busnes Canada ac yn cydgysylltu proses gyfryngu annibynnol. Mae gwasanaethau'r Ombwdsmon yn ddiduedd ac yn annibynnol ar y Llywodraeth a phroses gwneud penderfyniadau rheolaidd Banc Datblygu Busnes Canada.[105]

93. Dywedodd y Banc wrth yr Aelodau y cafodd 11 o gwynion yn unig a bod 12 o gwsmeriaid eraill a roddodd adborth ar ei wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol 2023-24, ond na wnaethant gwyno. Esboniodd Giles Thorley, Prif Swyddog Gweithredol y Banc, os caiff cwyn ei huwchgyfeirio, y gellir mynd â hi at gyfarwyddwr nad yw'n ymwneud â'r sefyllfa. Gwrthbrofodd y Banc unrhyw awgrym o 'gosbrestru', gan ddweud nad oes dim sylfaen dystiolaeth i awgrymu bod hynny'n wir o gwbl ac na fydd neb yn cael ei gosbrestru am gwyno.[106]

94. Mewn llythyr at y Pwyllgor yn ymateb i'r honiadau a wnaed gan Andrew Ling, datganodd Prif Swyddog Gweithredol y Banc y canlynol:

> *"Unsubstantiated allegations have been made that there are organisations that are too scared to make a complaint for fear*

[102] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Ppaur tystiolaeth – Eitem 3
[103] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 51
[104] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 318
[105] Swydd yr Ombwdsmon | BDC.ca
[106] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 171

> *of reprisal or blacklisting. As they stand, these allegations are unhelpful and – in the absence of any substantiating information - we are unable to establish their veracity."* [107]

95. Fodd bynnag, dywedodd Giles Thorley y bydd y banc hefyd yn cryfhau ei brosesau, felly bydd e-bost uniongyrchol at gwnsler ei grŵp. Ychwanegodd ei bod yn gyfreithiwr cymwysedig ac yn annibynnol ar y banc. Felly, mae'n gallu cael cwynion cyfrinachol gan y tîm buddsoddi neu hyd yn oed ganddo ef, os dymunir gwneud hynny.[108]

96. Pan gafodd ei holi a oedd wedi meincnodi nifer y cwynion yn erbyn cymaryddion, dywedodd y Banc, ei bod yn anodd iddo feincnodi ei hun yn uniongyrchol gan fod yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i weithgarwch rheoledig yn unig gael ei adrodd iddo.[109] Ni soniodd y Banc am gymariaethau â banciau datblygu eraill.

97. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn bwysig nodi bod y Banc wedi gwella ei weithdrefn gwyno'n ddiweddar ac wedi cydymffurfio â gofynion ar draws y DU Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. O ran syniad panel cwynion annibynnol, dywedodd y canlynol:

> *"It isn't clear to me that the best way of doing that is a separate group of people trying to recreate the decision, really. But, most fundamentally, I'm not sure what that would fix that isn't currently being addressed, and, if I understand that better, then perhaps I'd have a clearer view."*[110]

Casgliad 5. Rhoddodd y Pwyllgor sylw sylweddol i faterion llywodraethu a gweithdrefnau trin cwynion y Banc fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwynt a wnaed gan y Banc, ei bod yn anodd profi geirwiredd honiadau a wnaed heb gadarnhau gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r ffaith bod y Banc wedi gwella ei weithdrefn gwyno'n ddiweddar i roi mynediad uniongyrchol i'w Gwnsler Cyffredinol i achwynwyr, y nododd y Banc ei fod yn llwybr 'annibynnol', gan y gall Cwnsler gael cwynion cyfrinachol gan dîm buddsoddi neu Brif Swyddog Gweithredol y Banc. Nid oedd y Banc na'r Ysgrifennydd Cabinet yn gefnogol i'r angen am broses gwyno annibynnol ar

[107] Llythyr gan Gadeirydd Banc Datblygu Cymru ynghylch Andrew Ling – 27 Mai 2024, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Eitem 2.5 (Saesneg yn unig)
[108] Llythyr gan Gadeirydd Banc Datblygu Cymru ynghylch Andrew Ling – 27 Mai 2024, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Eitem 2.5 (Saesneg yn unig)
[109] Llythyr gan Gadeirydd Banc Datblygu Cymru ynghylch Andrew Ling – 27 Mai 2024, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Mehefin 2024, Eitem 2.5 (Saesneg yn unig)
[110] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 293

wahân. Fodd bynnag, gall mynediad at broses annibynnol fod yn ffordd dda o fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd gan yr achwynwyr unigol sydd wedi dewis mynd at y Pwyllgor, yn ddienw neu fel arall. Bydd y Pwyllgor yn goruchwylio materion sy'n ymwneud â llywodraethu a'r broses gwyno yn ei waith craffu parhaus ar y Banc, a bydd yn ceisio rhagor o sicrwydd gan yr Ysgrifennydd Cabinet pan fo o'r farn bod angen hyn.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Banc Datblygu Cymru wedi gwneud rhai newidiadau i'w broses o ymdrin â chwynion, ond mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid edrych ar y mater o ymdrin â chwynion yn yr adolygiad teilwredig a argymhellir o'r Banc.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru a Banc Datblygu Cymru ystyried sut y gellir casglu barn busnesau mewn ffordd gyfrinachol a/neu ddienw, gan gynnwys gan y busnesau sydd naill ai heb ddefnyddio'r Banc Datblygu o'r blaen, neu sydd wedi gwneud cais am gymorth a bod yn aflwyddiannus. Dylai'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny.

10. Adolygiad annibynnol o'r Banc

98. Nod ymchwiliad y Pwyllgor oedd gwerthuso sut y mae'r Banc wedi cyflawni ei amcanion gwreiddiol, a'r nodau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei llythyr cylch gwaith ar gyfer 2021-26. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru a ddarparwyd tua diwedd yr ymchwiliad yn datgan "Ym marn Llywodraeth Cymru mae'r banc wedi perfformio'n dda yn erbyn ei fesurau perfformiad allweddol". Mae'n pwysleisio hyder ym Mwrdd y Banc i arwain ei weithrediadau, gan ddod i'r casgliad ei fod "wedi aeddfedu ac esblygu ei arferion dros amser" ond "Mewn byd sy'n newid yn gyflym, rhaid i'r banc barhau i ddangos ystwythder a hyblygrwydd."[111]

99. Mae'r Ddeddf a sefydlodd Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban benodi unigolyn i gynnal adolygiad o berfformiad y Banc o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Mae gofynion tebyg ar gyfer cynnal adolygiadau yn y ddeddfwriaeth a sefydlodd Fanc Datblygu Busnes Canada.

100. Mae llythyr cylch gwaith y Banc yn datgan y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad teilwredig o'r Banc Datblygu, "yn ystod tymor y Llywodraeth hon yng Nghymru".[112] Fodd bynnag, yn 2023 penderfynodd Llywodraeth Cymru oedi adolygiadau teilwredig ar gyfer pob corff hyd braich yn ystod tymor Senedd, a symud at fodel hunanasesu yn gyntaf, yn canolbwyntio ar asesiad risg y corff ei hun sy'n gorgyffwrdd ag asesiad risg Llywodraeth Cymru ei hun. Archwiliwyd y broses hon yn fanwl gan Aelodau o'r Senedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ym mis Tachwedd 2023. Esboniodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod yr amser sydd ei angen i lunio (5-6 mis) a chyflwyno (8-10 mis) adolygiad teilwredig yn ei gwneud yn anymarferol bwrw ymlaen â chynllun gwreiddiol Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad teilwredig o'i holl gyrff hyd braich yn nhymor y Senedd bresennol.[113]

101. Er mwyn rhoi syniad o gwmpas adolygiad teilwredig, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiadau teilwredig o'r Llyfrgell Genedlaethol ag Amgueddfa Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad o Amgueddfa Cymru gan banel annibynnol. Cynhaliodd dros 100 o sgyrsiau â rhanddeiliaid, adolygodd filoedd o dudalennau o ddogfennaeth ac ymwelodd â phob un o saith safle'r Amgueddfa. Lluniodd y panel ddau adroddiad, ac roedd yr

[111] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Ppaur tystiolaeth
[112] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/llythyr-cylch-gwaith-ar-gyfer-banc-datblygu-cymru-2021-i-2026.pdf
[113] Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, 29 Tachwedd 2023, Paragraffau 68

olaf o'r rhain, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, yn cynnwys 77 o argymhellion ar gyfer gwella. Mae'n werth nodi bod yr adolygiad hwn yn dilyn adolygiad annibynnol a manwl iawn arall o'r Amgueddfa yn 2017.

102. Yn ôl canllawiau Swyddfa'r Cabinet[114] mae'r Model Hunanasesu yn cynnwys set o gwestiynau i adrannau a chyrff hyd braich eu defnyddio fel 'gwiriad cyflwr' ar gyfer y cyrff hynny, ac i adolygu eu perthynas â'r adran sy'n eu noddi. Mae'r Model wedi'i gynllunio i'w gwblhau drwy ymchwil bwrdd gwaith. Disgwylir y bydd angen ei gwblhau mewn partneriaeth â'r tîm noddi yn yr Adran a'r corff hyd braich. Mae'r canllawiau hefyd yn datgan y dylid defnyddio canlyniad y Model Hunanasesu fel un o'r ffactorau i lywio penderfyniad yr adran ynghylch a oes angen adolygiad ar raddfa lawn ai peidio.

103. Pan gafodd ei holi am hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor, dywedodd Prif Swyddog Gweithredol y Banc na ddywedwyd dim byd wrth y Banc am y broses hunanasesu, ond ei fod yn barod i ymgymryd â hi ar gais.[115] Fodd bynnag, dywedodd Gareth Bullock, Cadeirydd y Banc, yn benodol ei fod yn croesawu diffyg adolygiad teilwredig, oherwydd ei fod am gael ei adolygu a'i fesur ac nad oedd am osgoi hynny.[116] Aeth ymlaen i ddweud y gallai adolygiadau o'r fath fod yn aflonyddgar iawn ac y bydd efallai'n amau gwerth pan wnaed pethau heb amcan clir iawn o beth yw'r adolygiad a'i ddiben, a'i gynnal gan bobl nad ydynt yn brofiadol yn y sector a'i faterion cysylltiedig.[117]

104. Pan gafodd ei holi am y broses adolygu, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod yr hunanasesiad yn gam newydd cyn adolygiad teilwredig ac nad yw'n diystyru cynnal adolygiad teilwredig, ond bod y banc wrthi'n creu'r porth.[118] Dywedodd hefyd y dylid datrys y cwestiwn dosbarthu cyn cynnal adolygiad thematig.[119]

Casgliad 6. Mae'r Pwyllgor yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi oedi adolygiadau teilwredig llawn o gyrff hyd braich eraill. Fodd bynnag, gan fod y Banc yn sefydliad newydd, mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y byddai adolygiad teilwredig llawn o'i weithrediadau o fudd mawr i'r Banc. Dylid cynnal yr adolygiad hwn yn ystod tymor y Senedd hon yn unol â'r ymrwymiadd gwreiddiol yn llythyr cylch gwaith tymor llywodraeth y Banc.

[114] Canllawiau ar gynnal Adolygiadau o Gyrff Cyhoeddus (Saesneg yn unig) - GOV.UK (www.gov.uk)
[115] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 129
[116] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 123
[117] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 123
[118] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 254
[119] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 255

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad teilwredig llawn o Fanc Datblygu Cymru, yn ystod tymor y Senedd hon fel yn unol â'r ymrwymiad gwreiddiol yn llythyr cylch gwaith tymor llywodraeth y Banc.

11. FW Capital

105. Mae FW Capital yn rhan o Grŵp Banc Datblygu Cymru, a'i gangen rheoli cronfa, yn darparu cyllid hyblyg i fusnesau yng Ngogledd a De-orllewin Lloegr, yn ogystal â Chymru gyfan. Mae'n gyfrwng ar gyfer buddsoddiad Cronfa Bensiwn Clwyd yng Nghronfa Olyniaeth Rheoli Cymru, ac mae hefyd yn rheoli rhan o Gronfa Fuddsoddi Cymru a Chronfa Fuddsoddi De-orllewin Banc Busnes Prydain dan ei raglen o Gronfeydd Buddsoddi Gwledydd a Rhanbarthau.

106. Mae llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth ar gyfer y Banc yn datgan y canlynol:

> *"Rwy'n dymuno i BDC barhau i gydweithio gyda, a chefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddo lunio ei bolisïau yn gysylltiedig â disodli cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Rwy'n gwahodd BDC i fynd ati i nodi atebion sy'n creu'r potensial i gynyddu llif yr arian i Gymru – er enghraifft, datblygu ei berthynas â darparwyr buddsoddi priodol eraill fel y British Business Bank a'r UK Infrastructure Bank. Yn y cyd-destun hwn, yn dilyn cyhoeddiad gan Ganghellor y Trysorlys o gronfa ranbarthol gwerth £130m i Gymru[,] mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a BDC gydweithio i fynd i'r afael â'r cyfle hwn."*[120]

107. Ar 23 Tachwedd 2023, cyhoeddodd Banc Busnes Prydain lansiad y Gronfa Buddsoddi i Gymru, a ddisgrifiodd fel "y gronfa fuddsoddi gyntaf ar gyfer busnesau bach yng Nghymru i gael ei chynnal yn llwyr gan Lywodraeth y DU, a'r gobaith yw y bydd yn cynyddu'r cyflenwad a'r amrywiaeth o gyllid cyfnod cynnar sydd ar gael, trwy gynnig opsiynau i gwmnïau na fyddai'n derbyn buddsoddiad fel arall."[121]

108. Mae tri rheolwr cronfa wedi'u penodi i reoli'r gronfa. Bydd BCRS Business Loans yn rheoli rhan benthyciadau llai'r gronfa (£25,000 i £100,000), bydd FW Capital yn gyfrifol am fenthyciadau mwy (£100,000 i £2 filiwn) a bydd Foresight yn rheoli cytundebau ecwiti (hyd at £5 miliwn).

109. Cododd Tegid Roberts bryderon am yr arian a fuddsoddwyd yn Lloegr gan FW Capital, gan ddweud nad yw'r arian hwnnw'n weithredol yng Nghymru ac y gellid dadlau ei fod yn cystadlu â Chymru. Aeth ymlaen i ddweud, os yw rhywun

[120] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-11/llythyr-cylch-gwaith-ar-gyfer-banc-datblygu-cymru-2021-i-2026.pdf
[121] Cronfa Buddsoddi i Gymru | Banc Busnes Prydain (british-business-bank.co.uk)

yn rheoli arian yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, ei fod yn anochel yn cystadlu â Chymru. Mae o'r farn ei bod yn ymddangos bod ychydig o wrthdaro buddiannau yno.[122]

110. Cododd y Pwyllgor y pryder hwn am wrthdaro buddiannau gyda'r Banc yn ystod yr ymchwiliad. Dywedodd y Banc fod FW Capital yn stori o lwyddiant allforio Cymru o ran arbenigedd, a nododd y daeth â llawer o fuddion, gan gynnwys enillion ariannol sylweddol, i Gymru.[123]

111. Esboniodd Mike Owen, Cyfarwyddwr Buddsoddi'r Grŵp o ran buddion diriaethol, gweithredol, ei fod wedi'i sefydlu i allforio set sgiliau'r Banc a dod ag ychydig o elw i mewn i Gymru, ac y gwnaeth gyfraniad £1 filiwn tuag at orbenion y Banc. Roedd holl staff y swyddfa gefn yn gweithio yng Nghymru ac roedd rhywfaint o'r elw o FW Capital wedi cael ei ddefnyddio i sbarduno ac ategu'r gronfa risg ac ailstrwythuro sy'n bwrpasol i gefnogi busnesau Cymru mewn trallod. Nododd hefyd y buddion o ran meincnodi yn erbyn, a chystadlu â rheolwyr cronfa eraill, yn nodi yr enillwyd dros £30 miliwn gan Fanc Busnes Prydain na fyddai wedi bod yn bosibl heb FW Capital fel cyfrwng a awdurdodwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Nododd Prif Swyddog Gweithredol y Banc hefyd fod cangen y busnes yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd[124] i'r grŵp bancio gan ei fod yn endid a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol nad oedd yn destun ailddosbarthiad y SYG.

112. Yn ogystal â'r berthynas bwysig â Banc Busnes Prydain a'r adborth cymharol a ddarparwyd, dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwybodaeth am y farchnad a gafwyd hefyd yn bwysig, er enghraifft am strwythuro a phrisio cytundebau, yn ogystal â chyflwyniadau busnes. Rhoddodd Mike Owen enghraifft:

> *"... we did a significant investment a couple of years ago in a run-down hotel that was introduced by a business in the north-west that wanted to redevelop it, and now they employ 38 individuals. We got about three-and-a-half times the private sector leverage on that deal. So, there are cross-referrals in."*[125]

Casgliad 7. Nid oedd gan y Pwyllgor safbwynt ar wrthdaro buddiannau mewn perthynas â gweithgareddau FW Capital, ond mae'n nodi amgylchiadau unigryw ac anarferol corff sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth busnes yn

[122] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 31 Ionawr 2024, Paragraff 70
[123] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraffau 111-117
[124] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 110
[125] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraffau 111-117

Lloegr. Mae'r Aelodau'n cytuno ei bod yn bwysig i Fanc Datblygu Cymru reoli unrhyw achos canfyddedig o wrthdaro buddiannau.

12. Parodrwydd i dderbyn risg

113. Yn sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf y Pwyllgor, gofynnwyd i'r tystion a oedd yn rhoi safbwynt Cymru a yw strwythur ariannol y Banc yn atal ei archwaeth am risg, a'i awydd i fynd i'r afael â methiant y farchnad sy'n bodoli mewn rhai sectorau. Atebodd yr Athro Jones-Evans fod hynny'n wir o ran y cronfeydd a faint o adnoddau sy'n mynd i mewn i'r cronfeydd hynny.[126]

114. Honnodd aelodau Fintech Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod dull cyffredinol y Banc Datblygu yn wrth-risg sy'n mygu arloesi a photensial gwirioneddol egin fusnesau yng Nghymru. Mae aelodau Fintech Cymru yn awgrymu bod angen i BDC fabwysiadu agwedd realistig tuag at fethiant, gan y bydd y rhan fwyaf o egin fusnesau'n methu. Maent o'r farn y dylai BDC fod yn ystyried clustnodi sylfaenwyr â photensial uchel a'u cefnogi i ffurfio egin fusnesau olynol.[127]

115. Datganodd aelodau FinTech Cymru hefyd nad oes cymhelliant i staff gefnogi egin fusnesau risg uwch a'r canfyddiad yw bod staff yn dewis yr opsiwn diogel ar gyfer y tymor byr, ac nad ydynt yn fodlon ymchwilio i'r cyfleoedd am enillion uwch yn y tymor hwy.[128]

116. Dywedodd y Banc y gallai beirniadaethau o fod yn wrth-risg ddeillio o achosion lle roedd y Banc wedi gwrthod busnesau, ond nododd mai hwn oedd y buddsoddwr ecwiti mwyaf cynhyrchiol yng Nghymru o hyd, ac o ran cefnogi'r sector technoleg ariannol wedi cefnogi tua 40 y cant o aelodau Foundry FinTech Cymru, mwy pe bai busnesau sy'n adleoli i Loegr wedi'u cynnwys. Aeth Rhian Elston ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"... when we look at whether we've set the right level of risk appetite, equity is the highest risk of investments that we do, and, as I've already mentioned, we do a lot of those deals to young and start-up companies. We're able to sort of balance our approach to risk through a portfolio approach. And what I mean by that is we do debt investments as well as equity investments. The debt is lower risk and, because we do a volume of those, it allows us to make more of these higher risk equity investments. But that's a portfolio we need to manage. We have capital that we need to return to Welsh Government,*

[126] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 31 Ionawr 2024, Paragraff 61
[127] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW08
[128] Tystiolaeth ysgrifenedig – DBW08

> *so we are constantly managing where we are across that risk profile. Currently, we're on schedule to return the money to Welsh Government. We're not under, but we're certainly not significantly over, so I feel we've got the right balance at the moment of the level of risk that we're taking on the opportunities that present to us."*[129]

117. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, wrth ateb cwestiynau am gyfeiriad a blaenoriaethau'r Banc yn y dyfodol, y canlynol wrth yr Aelodau:

> *"... I want to make sure the bank continues to do the work that it is doing—providing finance to start-ups, providing to finance to businesses that want to grow, and taking on those transactions that mainstream lenders might find sometimes a little too high risk. I think it's important within the bounds of appropriate metrics and an appropriate lending policy, of course, that the bank is able to support those higher-risk businesses so that we can see the growth in sectors that are important for the future, which sometimes mainstream banks are a little more wary of. I think that's fundamental."*[130]

118. Yn benodol ar y cyd-destun y tu ôl i ddatganiad aelodau Fintech Cymru ar risg, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod tensiwn yno:

> *"... the need for the bank, in order to fulfil its remit, to take more risk on the one hand than mainstream lenders would perhaps typically want to take, but, on the other, we're developing an evergreen model, aren't we, where pretty fundamental to the model is the ability for those investments to make a return, which can then be reinvested in the future. And we've seen the bank do that very successfully. So, in a sense, those two priorities are, in some sense, in tension, and the task is to strike the right balance between the two."*[131]

119. Nid oedd yn meddwl bod barn aelodau FinTech Cymru yn gwbl deg. Aeth ymlaen i esbonio fel a ganlyn:

> *"The way that we contract with the bank assumes that some investments will generate a greater return than others, and*

[129] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 79
[130] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 203
[131] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 215

those where the return is envisaged to be less are those, I think, where the risk is likely to be higher. In fact, some of the capital that we use to fund the bank, certainly to date, is financial transactions capital, where the need to return the funding provided is at a lower rate than 100 per cent. So, it provides a margin within which the bank can take decisions that reflect that higher risk profile. But, at the end of the day, these are not grants. The bank operates on the basis of a repayable finance model. So, it is important, clearly, that, in making those judgments, it is foreseeing that the lending is repayable. So, I think you have to see the model in its entirety, really."[132]

[132] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 216

13. Safbwynt byd-eang

120. Rhan o gylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd archwilio enghreifftiau o arfer gorau byd-eang. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban a Banc Datblygu Busnes Canada, a darparodd y Banc a'r Ysgrifennydd Cabinet dystiolaeth hefyd ar gyfer yr agwedd hon ar yr ymchwiliad.

121. Dywedodd Mike Wedderspoon o Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban y canlynol wrth yr Aelodau:

> *"... we do engage, both with other development banks across the UK, and then across Europe and then others more broadly. As an example of which, we brought together the Connecticut Green Bank, KfW and the Canada Infrastructure Bank for a shared event that we worked on in collaboration with a Scottish-based think tank over COP26, where we could look to understand how development banks in different stages of their existence had sought to address key challenges and had sought to deliver against the mandates that they were given. So, we do have an ongoing approach to engaging with development banks and making sure that, if there are lessons that others have learned before us, we learn from them."*[133]

122. Nododd Karen Kastner o Fanc Datblygu Busnes Canada ei rôl fel ysgrifennydd cyffredinol Grŵp Montreal, cymdeithas o 12 banc datblygu o bob cwr o'r byd. Mae Banc Datblygu Busnes Canada yn sylfaenydd, gyda Bpifrance, y banc datblygu yn Ffrainc. Y nod yw dysgu gan fanciau datblygu eraill i gyflymu arloesedd. Dywedodd y canlynol:

> *"From BDC's perspective, we, over the last 11 years, have learned quite a bit. BDC is mainly, or has been mainly, a direct-to-client business model, meaning that we have about 700 account managers and those account managers meet with businesses across the country and do loans. We do have an online, also, loan-application process, which is becoming increasingly important, but, mainly, our history has been built around a direct model. What we've found in the course of discussions with our peers in the Montreal Group is that many countries have an indirect model, so they provide capital to the SME*

[133] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 60

> *market in their countries through guarantee programmes, for instance. That's been an area that we have been quite interested in developing. We've learned a lot from counterparts."*[134]

123. Nododd Karen Kastner hefyd fod Banc Datblygu Busnes Canada yn targedu cymorth yn benodol i entrepreneuriaid benywaidd a brodorol:

> *"... we do track that carefully and, in fact, have a strategy that is a long-standing strategy to reach more women entrepreneurs. We do that through our financing business, our lending business, but also through our equity business. We currently have CA$1.6 billion in loans to women entrepreneurs, which represents about 17,000 women entrepreneurs. But we also have a CA$500 million fund called the Thrive platform, which is delivered through our investment business, our BC business. That fund looks to invest in innovative firms that are run by female entrepreneurs. It looks to invest in innovative fund structures that then go on to on-lend to female-run businesses. It also looks to invest in other ecosystem initiatives that set out to help women entrepreneurs."*[135]

124. Dywedodd Banc Datblygu Cymru wrth y Pwyllgor ei fod "wedi meithrin cysylltiadau rhagweithiol â banciau eraill fel Banc Datblygu Busnes Canada, Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban, Scottish Enterprise, Finnvera, BPIFrance a KfW".[136]

125. Mae ganddo berthynas waith agos gyda Grŵp Montreal, ac mae ganddo ddiddordeb mewn dod yn aelod uniongyrchol ohono. Rhoddodd y Banc rai enghreifftiau cryf o sut y mae'r ymgysylltiad hwn wedi dylanwadu ar ei arferion ei hun, gan ddweud bod ymgysylltu â'r Grŵp yn rhoi "mynediad uniongyrchol i fanciau datblygu eraill yn ogystal ag ymchwil i feysydd perthnasol, megis adrodd ar effaith."[137]

[134] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 323
[135] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 296
[136] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig – Eitem 3
[137] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Tystiolaeth ysgrifenedig – Eitem 3

126. Roedd enghreifftiau o gydweithio a roddwyd gan y Banc yn cynnwys:

- rhannu gwybodaeth am gynhyrchion a gwasanaethau, er enghraifft trafodaethau â BPI Ffrainc ar eu cynllun hinsawdd, gan gynnwys eu benthyciad pontio a chymuned Coq Vert, a helpodd i lunio Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd y Banc;
- Trafodaethau â KfW ar eu cefnogaeth i ôl-osod tai, er mwyn llywio cynllun ôl-osod y Banc;
- Dealltwriaeth o raglen Gyrwyr Twf BDC, gwasanaeth cynghori taledig ar gyfer busnesau twf uchel;
- Rhannu arbenigedd ar faterion technegol, er enghraifft y Ddeddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol a'r Gyfundrefn Rheoli Cymhorthdal gyda Scottish Enterprise;
- Ymchwil a gomisiynwyd gan Brifysgol Caeredin i adolygu dulliau arferion gorau o fesur effaith, a oedd yn cynnwys banciau datblygu eraill.

127. Dywedodd y Banc hefyd ei fod yn cysylltu â sefydliadau eraill fel yr OECD (Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) sy'n comisiynu ymchwil berthnasol, ac unigolion megis economegydd blaenllaw sy'n arbenigo mewn cyllid a datblygiad rhyngwladol, Stephany Griffith Jones. Mae hefyd yn aelod o Fforwm Cyllid Gwyrdd a Chynaliadwyedd Sefydliadau Ariannol Cyhoeddus y DU[138] – grŵp ar draws y DU sy'n rhannu gwybodaeth am ddatblygu dulliau cyffredin o gynaliadwyedd a chyllid gwyrdd. Mae'r aelodau'n cynnwys Banc Seilwaith y DU, Cyllid Allforio'r DU, Banc Busnes Prydain, Innovate UK, Menter yr Alban a Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban. Dywedodd fod grŵp tebyg yn cael ei ffurfio sy'n canolbwyntio ar driniaeth gyfrifyddu Banciau Datblygu, rhywbeth a gychwynnodd y Banc gyda Banc Seilwaith y DU.

128. Pan gafodd ei holi am y gwersi a ddysgwyd gan fanciau datblygu eraill, o safbwynt y DU, barn yr Ysgrifennydd Cabinet oedd bod yr Alban ychydig y tu ôl i Gymru, ond bod rhai pethau diddorol y gellir eu dysgu o Ogledd Iwerddon, er gwaethaf diwylliant gwahanol yn y gymuned fusnes.[139] Gwnaeth y pwynt, gyda'r Banc, sef y banc rhanbarthol cyntaf o'i fath yn y DU, yn ogystal â dysgu gan eraill, y gall arwain y ffordd weithiau, sy'n galonogol iawn.[140]

[138] Datganiad i'r wasg - 30 Mawrth, 2023 | Banc Busnes Prydain (Saesneg yn unig) (british-business-bank.co.uk)
[139] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mawrth 2024, Paragraff 273
[140] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraff 311

129. Yn ehangach roedd yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod model Canada yn gyffrous a bod y dull strategol a fabwysiadwyd yn Baden-Württemberg - i gysoni gwaith y llywodraeth â buddsoddwyr, sefydliadau addysg uwch a'r banc datblygu - hefyd yn enghraifft dda o gysoni'r prif gyfranwyr â'r blaenoriaethau allweddol. Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd at y Fenter Vanguard Ewropeaidd[141] fel cyfrwng i ddefnyddio rhwydwaith ledled Ewrop ar gyfer arloesi.[142]

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymgysylltiad y Banc â Banciau Datblygu eraill a sefydliadau a fforymau perthnasol. Mae'n annog y Banc i wneud rhagor o waith gyda Grŵp Montreal, er mwyn sicrhau ei fod yn mabwysiadu arfer gorau, ac mae'r Pwyllgor yn cefnogi ei nod o ymuno â'r Grŵp yn llawn.

[141] https://www.s3vanguardinitiative.eu/
[142] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Ebrill 2024, Paragraffau 310-311

Casgliadau

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn agored i adolygu dull Llywodraeth Cymru o bryniannau gan y gweithwyr. Mae Aelodau'n teimlo y gallai fod gan y Banc gael mwy o ran wrth gefnogi pryniannau gan y gweithwyr yn y dyfodol, a byddai'n disgwyl i unrhyw adolygiad ystyried hyn yn fanwl. Tudalen 18

Casgliad 2. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai rhoi'r Banc ar sail ddeddfwriaethol fod o fudd yn y tymor hir. Fodd bynnag, mae materion mwy dybryd y mae angen eu datrys gyntaf, megis ailddosbarthiad y Banc, ac felly mae'n argymell cynnal adolygiad ynghylch a ddylid gosod y Banc ar sail statudol ar ôl hynny. Tudalen 27

Casgliad 3. Roedd yn ymddangos bod ymateb y Banc i gwestiynau'r Pwyllgor hwn ynghylch diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â benthyciadau Dauson yn seiliedig ar allu'r cwmni i ad-dalu fel y penderfynydd allweddol. Er bod y Banc yn benthyca ar sail fasnachol, mae hefyd yn defnyddio arian cyhoeddus i wneud benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti. Nid oes awgrym nad yw'r Banc yn defnyddio dulliau safonol o asesu ceisiadau am fenthyciad. Fodd bynnag, mae gwaith craffu ar y benthyciadau i Grŵp Amgylcheddol Dauson yn tynnu sylw at bwysigrwydd diwydrwydd dyladwy cadarn i osgoi, neu o leiaf nodi, y posibilrwydd y bydd y Banc yn benthyca i gwmnïau y mae eu gweithgareddau'n torri rhwymedigaethau statudol ac ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru, neu y canfuwyd eu bod wedi torri'r gyfraith. Mae'r Pwyllgor yn nodi, er bod adroddiad blynyddol diweddaraf y Banc a gyhoeddwyd ar gyfer 2022-23 yn nodi sut y mae'n ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) fel rhan o'i asesiad risg, nid yw'r cytundeb fframwaith rhwng y Banc a Llywodraeth Cymru, a gafodd ei lofnodi yn 2017 a'i ddiweddaru yn 2021, yn benodol ar y pwynt hwn. Ymatebodd y Banc i gais y Pwyllgor am ragor o eglurhad, gan esbonio bod ganddo ganllawiau gweithredu cronfa mewnol y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru, a chyfeirio at achosion 'cyfyngedig iawn' o gyfeirio materion at Lywodraeth Cymru. Mae'r Aelodau'n gwerthfawrogi cydweithrediad y Banc wrth ymateb ar y mater hwn, a bod materion cyfrinachedd masnachol ac annibyniaeth weithredol i'w hystyried. Fodd bynnag, nid yw'r amgylchiadau a'r union broses y bydd y Banc yn cyfeirio materion neu bryderon at Lywodraeth Cymru i'w hystyried yn hollol glir o hyd. Nid yw'n glir chwaith o'r ymateb gan y Banc yn union pa rôl sydd gan Weinidogion Cymru, os o gwbl, yn y broses hon. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y materion diwydrwydd dyladwy hyn yn fanwl iawn fel rhan o drywydd ei ymchwiliad. Er ei fod yn derbyn bod rhaid i'r Banc fod yn gwbl annibynnol ar

Lywodraeth Cymru, a hynny'n amlwg, mae o'r farn bod angen llawer mwy o eglurder a thryloywder ynghylch y prosesau diwydrwydd dyladwy hyn, er mwyn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r cyhoedd. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r datganiad a wnaed gan Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig, ei fod wedi gofyn i'r Banc edrych ar hyn eto. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn gan yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Banc mewn sesiynau craffu rheolaidd yn y dyfodol..... Tudalen 31

Casgliad 4. Cyn yr ymchwiliad hwn, roedd diffyg tryloywder ynghylch y broses o ddod o hyd i gyfarwyddwyr buddsoddi a'u penodi. Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth y Banc ar y mater ac yn teimlo bod hyn wedi gwneud tipyn i ddatgyfrinio'r broses benodi. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth wrthgyferbyniol ar y broses gan unigolion sydd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor am eu profiadau gyda'r Banc. Gan y cafwyd rhywfaint o'r dystiolaeth hon yn ddienw neu'n gwbl gyfrinachol, bu'n anodd i'r Aelodau ei hintegreiddio'n llawn yn yr adroddiad hwn. Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan Mr Ling a'r Banc mewn perthynas â'i gŵyn ar gael i'r cyhoedd ac mae wedi'i hadlewyrchu.....Tudalen 36

Casgliad 5. Rhoddodd y Pwyllgor sylw sylweddol i faterion llywodraethu a gweithdrefnau trin cwynion y Banc fel rhan o'r ymchwiliad hwn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwynt a wnaed gan y Banc, ei bod yn anodd profi geirwiredd honiadau a wnaed heb gadarnhau gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r ffaith bod y Banc wedi gwella ei weithdrefn gwyno'n ddiweddar i roi mynediad uniongyrchol i'w Gwnsler Cyffredinol i achwynwyr, y nododd y Banc ei fod yn llwybr 'annibynnol', gan y gall Cwnsler gael cwynion cyfrinachol gan dîm buddsoddi neu Brif Swyddog Gweithredol y Banc. Nid oedd y Banc na'r Ysgrifennydd Cabinet yn gefnogol i'r angen am broses gwyno annibynnol ar wahân. Fodd bynnag, gall mynediad at broses annibynnol fod yn ffordd dda o fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd gan yr achwynwyr unigol sydd wedi dewis mynd at y Pwyllgor, yn ddienw neu fel arall. Bydd y Pwyllgor yn goruchwylio materion sy'n ymwneud â llywodraethu a'r broses gwyno yn ei waith craffu parhaus ar y Banc, a bydd yn ceisio rhagor o sicrwydd gan yr Ysgrifennydd Cabinet pan fo o'r farn bod angen hyn. .....Tudalen 39

Casgliad 6. Mae'r Pwyllgor yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi oedi adolygiadau teilwredig llawn o gyrff hyd braich eraill. Fodd bynnag, gan fod y Banc yn sefydliad newydd, mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y byddai adolygiad teilwredig llawn o'i weithrediadau o fudd mawr i'r Banc. Dylid cynnal yr adolygiad hwn yn ystod tymor y Senedd hon yn unol â'r ymrwymiadd gwreiddiol yn llythyr cylch gwaith tymor llywodraeth y Banc.....Tudalen 42

Casgliad 7. Nid oedd gan y Pwyllgor safbwynt ar wrthdaro buddiannau mewn perthynas â gweithgareddau FW Capital, ond mae'n nodi amgylchiadau unigryw ac anarferol corff sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth busnes yn Lloegr. Mae'r Aelodau'n cytuno ei bod yn bwysig i Fanc Datblygu Cymru reoli unrhyw achos canfyddedig o wrthdaro buddiannau. ..... Tudalen 45

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
24 Ebrill 2024	**Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg,** Llywodraeth Cymru **Duncan Hamer, Cyfarwyddwr, Gweithrediadau – Busnes a Rhanbarthau,** Llywodraeth Cymru **Jo Banks, Pennaeth Mynediad at Gyllid a Thîm Partneriaeth BDC,** Llywodraeth Cymru
24 Ebrill 2024	**Gareth Bullock, Cadeirydd**, Banc Datblygu Cymru **Giles Thorley, Prif Swyddog Gweithredol** Banc Datblygu Cymru **Mike Owen, Cyfarwyddwr Buddsoddi'r Grŵp,** Banc Datblygu Cymru **Rhian Elston, Cyfarwyddwr Buddsoddi Cymru,** Banc Datblygu Cymru
21 Mawrth 2024	**Karen Kastner, Is-lywydd, Strategaeth, Blaenoriaethu a Chysylltiadau Cyfranddalwyr.** Banc Datblygu Busnes Canada
21 Mawrth 2024	**Mike Wedderspoon, Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyflawni Strategol,** Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban **David Richie, Cyfarwyddwr Gweithredol Partneriaethau ac Ymgysylltu,** Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban
22 Chwefror 2024	**Ben Cottam, Pennaeth Cymru,** Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
31 Ionawr 2024	**Tegid Roberts** **Yr Athro Dylan Jones-Evans**

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar dudalen we'r Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
DBW 01	Paul Taylor
DBW 02	Cwmpas
DBW 03	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
DBW 04	Uned Ymchwil i Economi Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd
DBW 05	Llywodraeth Cymru
DBW 06	Yr Athro Dylan Jones-Evans
DBW 07	Nutrivend
DBW 08	Fintech Cymru

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Llythyr at y Cadeirydd gan Fanc Datblygu Cymru	24 Mehefin 2024
Llythyr gan Fanc Datblygu Cymru ynghylch yr ymateb gan Mr Ling	29 Mai 2024
Llythyr ymateb at y Cadeirydd gan Fanc Datblygu Cymru	17 Mai 2024
Llythyr gan y Cadeirydd at Fanc Datblygu Cymru - yn dilyn y cyfarfod ar 24 Ebrill 2024	2 Mai 2024
Papur tystiolaeth – Llywodraeth Cymru	24 Ebrill 2024
Papur tystiolaeth – Banc Datblygu Cymru	24 Ebrill 2024
Llythyr gan Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban yn dilyn y cyfarfod ar 21 Mawrth 2024	17 Ebrill 2024
Llythyr gan y Cadeirydd at Fanc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban	25 Mawrth 2024
Llythyr gan Andrew Ling ynghylch Banc Datblygu Cymru	13 Mawrth 2024